YR YMOFYNYDD.

RHIF. 44.] AWST, 1862. [AIL GYFRES.

Y BRENIN CASWALLON.

TESTUN EISTEDDFOD Y CARW COCH, ABERDAR, (1857.)

CYN ein myned i ganlyn yr ychydig o nodiadau gwasgaredig, ac ansicr, a gyfeiriant at wrthrych ein testun, sef HANES Y BRENIN CASWALLON, ag ydynt ar gael mewn hanesyddiaeth Gymreig, yn nghydag eiddo yr ysgrifenwyr Rhufeinig, iawn i ni yn gyntaf gymmeryd golygiad byr ar ansawdd a sefyllfa y Prydeiniaid, cyn, ac ar ddyfodiad y Rhufeiniaid yma idd eu darostwng. Oddiwrth yr hyn a grybwyllir am danynt gan Julius Caisar a Tacitus, ymddengys fod Ynys Prydain wedi cael ei dosbarthu rhwng o ddeugain i bump a deugain o welythiau neu lwythau, a dywaid Tacitus o gylch deg-ar-hugain; ond gan na bu yr hanesydd yna erioed yn Mhrydain ei hun, ni ddylem roddi y flaenoriaeth idd ei dystiolaeth ef am rifedi llwythau cynhenid yr ynys. Whittaker, yn ei Hanes Mancenion, a ddosrana y llwythau Prydeinig yn drefnus oddiwrth grybwyllion Caisar, a'u cyfanleoedd ar yr ynys, ac wedi hyny y dosraniad a wnaed o'r ynys gan y Rhufeiniaid, a chan enwi yn bresenol y tiriogaethau fel yr hanfodent gan y Prydeiniaid, ac fel eu henwir yn awr yn yr oes hon. Canlynwyd ef gan y diweddar Barch. J. Hughes, a chan y diweddar Barch. Eliazer Williams, ac ysgatfydd nad eiddo y ddau olaf yw y cywiraf yn hyny o orchwyl a hawddaf i ni ei amgyffred, am eu bod wedi Cymreigio yr enwau haner Lladinaidd a Phrydeinaidd i iaith gysefin y Cymry yn yr oes hon, mal y Tranofantiaid, Cynfanwysiaid, Coritaniaid, *(un o dair gormes Ynys Prydain)* Casiaid, Tafeiniaid, Gwychemiaid, Uchelwys, Coreineifiaid, Syddyntiaid, Gwyllteiniaid, Brigantwys, Gododinwyr, Goddeiniaid, Sallwyfiaid, Nofantwys, Dyfnwyson, Hynwystiaid, Perthyron, Tachialiaid, Pancymogiaid, Albanwys, Eithocaitiaid, Celyddoniaid, Ceintiaid, Llygiaid, Carnabiaid, Catiniaid, Meiriaid, Cerneinogwys, Canronwys, Creonwysiaid, Ebydwys, &c. Pa gymmaint o amser a gymerodd i ddwyn y Cymry Prydeinig dan gylch o reolaeth a deddfau gwladwriaethol nid yw hysbys, ond amlwg nad oedd y cyfryw drefniant yn un wedi dyfod i fodoldeb mewn cyfnod byr, ag mai ffrwyth ymbrawf, ac ymestyniad at iawn drefniant gwleidyddol a ddygodd ein hynafiaid mor fedrus mewn trefniadau gwladol ac hunan amddiffynol, ac yn brawf nad oeddynt yn anwariaid anwybodus, pe felly ni buasai achos i'r Rhufeiniaid i gydnabod eu gwrhydri, medrusrwydd, a chadernid eu harfau pan yn ymladd â hwynt.

Cynhalient y gwahanol lwythau crybwylledig fath o anymddibyniaeth unigol iddynt eu hunain, a mynych y byddent yn dal i fynu ryfel yr un yn

erbyn y llall, pan ddygwyddai fod un o naddynt yn gormesu ar ddosran y naill y llall, a therfyniad yr ymryson trwy ymgyrchion a chadgyrchau gwaedlyd, fel y byddai y boblogaeth yn cael ei lleihau, fel yr arferir yn bresenol yn mysg amryw o genhedloedd y ddaear hyd heddyw, mal amryfal lwythau Indiaidd a Chiniaidd, y rhai a lywodraethir gan wahanol bennaethiaid. Ond yr oeddynt y Cymry, er eu bod yn cael eu llywodraethu gan gyfresi o bennaethiaid bychain, ac aml mewn rhyfel a'u gilydd pan na fuasai ganddynt neb eraill i ryfela â hwynt; ond, pan yr ymddangosai rhyw elyn cyffredin, yn debyg o ddyfod i amcanu cymmeryd meddiant o'u tiriogaethau, byddent oll yn ymunaw a'u gilydd, ac yn cynnal cyfarfod cyhoeddus yn yr awyr agored, gan ddethol un o bennaethiaid y gwelygyrddau uchod, trwy bleidlais, i fod yn ben ar yr oll, a phawb yn ymrwymo i amddiffyn a chanlyn y cyfryw bennaeth, a chyda y byddinoedd yr oedd yr Ofyddion, Beirdd, a'r Derwyddon: a chymmaint oedd y dylanwad oedd gan y Derwydd ar y byddinoedd fel pan fuasai y ddwy blaid ar fin ymruthraw ar eu gilydd, gallai ef yn ei wisg wen anturiaw yn ddiberygl rhwng y ddwy ac atal yr ymrysonfa.

Gresyn na byddai yr un dylanwad gan y rhai a gyfenwir yn weinidogion y grefydd Gristionogol heddyw, ond amlwg nad oes, ac nid allant atal y rhyfelwyr Cristionogol rhag cyfodi yr un yn erbyn y llall, diweinio y cledd, a chyflawni hafogau echrys ar y naill y llall! Felly dan yr amgylchiadau uchod, a'u rhagwybodaeth o eiddigedd y Rhufeiniaid atynt, a'u penderfyniadau bwriadol idd eu darostwng am y trafferthion a roddid iddynt trwy ymbleidiad y Cymry a'u brodyr y Gauliaid, wele Caswallon, mab Beli a brawd Lludd, un o'r cymmeriadau mwyaf urddasol a lanwodd y bennadwriaeth Brydeinig yn ei oes, yn cael ei ethol yn Frenin Prydain, a chadlyw i arwain byddinoedd y Prydeiniaid i'r maes yn erbyn eu gelynion pan yr ymosodent arnynt, ac i amddiffyn a chadw meddiant o'u hanymddibyniaeth; ac yn wir nid ymddengys yn bresenol y gallasent ein hynafiaid wneyd un dewisiad amgenach nac ethol y llyw Caswallon i lenwi y bwlch cyfyng ond peryglus hwnw. Yr oedd y dewisiad yn un da, oblegyd ymddengys i ni ei fod mor gyfarwydd a Gallia, a darnau eraill o gyfandir Europ ag oedd a Phrydain, a chanddo ddylanwad mawr ar y Gauliaid. Pan oedd yr ymerodraeth Rhufeinig wedi myned yn ben moliant yr holl fyd adnabyddus y pryd hyny, athroniaeth a dysgeidiaeth y Groegiaid wedi troi i Rhufain, yr Aipht a'i chelfau, seryddiaeth, &c. wedi eu gosod yn hynodion i godi cymmeriad y Rhufeinydd i enwogrwydd—cyfoethogau Persia a'r India i lenwi blychau ei ganghellflwch wladwriaethol, a'i aerlwy rhyfel yn dychrynu y teulu dynol, ac yn gosod Cyfandir Europ o dan ei iau eryraidd, safent y Gauliaid yn wrthwynebwyr cedyrn yn erbyn y rhengau Rhufeinig, a chesglid pob gallu er eu gwrthsefyll, a thaer ymfrwydrent er cadw awenau eu hanymddibyniaeth heb eu darostwng; ond oll yn ofer, nid oedd modd cadw draw o hyd y cleddyf, y bwa a'r darian, y cyfryw allu arwraidd, celfyddydol a gwareiddgar, os goddefir yr enw.

Yn y cyfnod hwnw, a llawer boreuach, yr oedd undeb a chyfathrach mawr yn hanfodi rhwng y Prydeiniaid a'r Gauliad, a pherthynas agos rhyngddynt a'u gilydd mal cenedl, a chawn fod y Prydeiniaid yn mynych gynnorthwyo y Gauliaid yn erbyn y Rhufeiniaid, yr hyn a fu yn achos iddynt i ddal eu hanymddibyniaeth yn hirach nac y buasent pe wrthynt eu hunain; ac wrth ganfod hyny o gysylltiad rhyngddynt cynhyrfwyd yspryd y Rhufeiniaid, a gwneyd ymgyrch yn erbyn y Cymry Prydeinig; ac er fod Ynys Prydain yn

adnabyddus iddynt yn flaenorol, eto, y mae lle cryf i feddwl na buasent yn ymyraeth a darostyngiad y cyfryw ysnutyn bychan o'r byd a hwn pe na fuasent y Cymry wedi rhoddi cymmaint o drafferthion iddynt yn eu cysylltiad a'r Gauliaid. Y canlyniad a fu i Julius Caisar benderfynu ymweled a Phrydain a darostwng y Cymry, ac arweiniodd lynghes gref, milwyr a marchogion er dwyn ei amcan i weithrediad, a'r ymgyrch a gychwynwyd ganddo ef, a orphenwyd gan ei olyddion, nid yn gymmaint er mwyn elw, ond er mwynhau enw mawr, a chael nod o barch a diolch gan senedd Rhufain, a dyrchafiad i fwy o anrhydedd, ond mor fawr ac aml oedd bradwriaethau ac eiddigedd y pennaethiaid Rhufeinig at eu gilydd, mal nad oedd ddichonadwy i un gwron fyw yn hir wedi y cyrhaeddai y gris uchaf ar y weithrawd ymerodrawl hono, cyn y buasai rhyw fradwr yn gyru ei ddagr idd ei galon, er mwyn cael ei le, neu ddwyn chwildroad oddiamgylch i ateb ryw ddibenion eraill, naill ai er mwyn plaid, neu ei berthynasau. Y cyfryw oedd y perygl a'r genfigen a flodeuai yn mysg y Rhufeiniaid tra yr oedd eu hawdurdod wedi dychrynu pob cenedl a pha un y deuent i gyswllt a hwynt a'u hymrysonau cartrefol o'r diwedd a ddinystriodd eu holl allu.

Er i Julius Caisar diriaw yn Mhrydain, ac anfon ei yspeiwyr yn flaenorol i edrych ansawdd yr Ynys a dullweddiad milwrol y Cymry, nid oedd y gorchwyl mor hawdd idd eu gorchfygu; oblegid ymddengys fod ein hynafiaid yn wybodus o amcanion y Rhufeiniaid, y byddai iddynt ymosod er eu darostwng, ond nid heb lawer o ymladd a thywallt gwaed o bob tu. A syrthiodd miloedd yn y cadgyrchau hyny cyn cyflawn ddarostwng y Prydeiniaid dros yr holl Ynys. Yr ydym yn ddyledus i Julius Caisar am yr hanes a rydd am sefyllfa ein hen genedl, ansawdd eu llywodraeth, eu dull o fyw, eu dosraniadau yn wahanol lwythau dan is-bennaethiaid, eu gwroldeb, a'u medrusrwydd fel rhyfelwyr, eu dullweddiad amddiffynol yn erbyn gelynion, eu crefydd dderwyddawl a'u sefydliadau, y modd y gwisgent eu haerlwy rhyfel, eu cerbydau, &c., mor belled a gallai ef ganfod eu gweithrediadau; ac er y gallwn feddwl yn naturiol, mai hanes led arwynebol a fedrai ef ei roddi o gyflwr a threfniadaeth ein hynafiaid, ac yntau heb weled ond rhan fechan o'r Ynys na'i phreswylwyr; eto, da oedd cael hyny i gychwyn oddiar law pendefig estronawl. Daeth Caswallon ap Beli, a brawd Lludd i feddiant o lywodraeth y Prydeiniaid o gylch 63 o flynyddau cyn cred, a chyfrif i Julius Caisar ddyfod yma 55 o flynyddau cyn cred, ac am y cawn mai yn yr wythfed flwyddyn o deyrnasiad Caswallon y tiriasant y Rhufeiniaid yma gyntaf. Oddiwrth hyn canfyddwn nad tyb ddieithr idd y Cymry oedd disgwyl am eu darostyngiad gan y Rhufeiniaid, ac fod etholiad Caswallon yn frenin Prydain oll, wedi cymmeryd lle rhai blynyddau cyn y tiriad Rhufeinig yma, a gwiliadwriaeth fanol yn cael ei gadw, a pharotoiadau mawrion yn cael eu gwneyd er amcanu eu hatal i diriaw yn Mhrydain. Nid am ei hynafiaeth linachol y cyfodwyd Caswallon i'r awdurdod Unbenaethol, ond am ei fod yn un o wroniaid yr Ynys mal ryfelwr, a mwy ei fedrusrwydd, a mawr ei ddylanwad, mal un o bennaethiaid llwyth ymfrwydrol y Casiaid, a mynegir mal y canlyn yn y Trioedd, Rhif. 17. "Tri Unben Rhaith Ynys Prydain; un Caswallon ab Beli, ab Mynogan; ail, Caradawg ab Bran, ab Llyr Llediaith; trydydd, Owain ab Macsen Wledig; sef, o raith gwlad a chenedl y dodid arnynt yn Unbenaeth, lle nad oeddynt hynafiaid." Triad 24 a ganlyn —"Tri phrif Gatteyrn Ynys Prydain; Caswallawn ab Beli; Gweirydd mab Cynfelyn Wledig; a Charadawg ab Bran ab Llyr Llediaith." Ymddengys

oddiwrth y crybwyllion uchod, fod gwrhydri a mawredd milwrol Caswallon yn uwch mewn bri a pharch gan ei gydwladwyr na neb o'r pennaethiaid eraill. Y waith gyntaf y tiriodd Julius Caisar a'r Rhufeiniaid yn Mhrydain, ni wnaethant ychwaneg na dangos eu hunain, gydag ychydig o ymladd, cadwodd Caswallon a'i Brydeiniaid y byddinoedd Rhufeinig mewn pryder am gryn amser, ac mewn amheuaeth am eu llwyddiant i ddarostwng y Cymry. Y mae hyny yn resymol i ni feddwl, am fod manteision amddiffynol Caswallon a'i fyddinoedd o flaen y Rhufeiniaid yn fawr, pe buasent mor fedrus mewn ryfel, a meddianol ar yr un celfi rhyfela a hwynt, diau o ran gwroldeb na fuasai yr ymgyrau yn gydbwys. Ac er fod y Prydeiniaid yn peri dychryn ar y Rhufeiniaid, gan eu buandeb, a'u cerbydau echrys ac angeuawl yn ymruthraw trwy eu rhengau nes eu gyru i anhrefn, a'u enciliadau cyflymwyllt i'r coedydd, y ffosydd, anhreiddiawl i'r milwyr Rhufeinig, gan bwysau eu harfau idd eu canlyn, ynghyd a'u hadymosodion pybyr arnynt; ac os ydym i gredu Bryt Gryffydd ab Arthur, gorfu ar Caisar a'i lu rhoddi fynu, a thynu eu rhengau yn ol ychwaneg nac un waith, a hyny o herwydd cyflymder a bywiogrwydd ysgythrlym y Prydeiniaid arnynt, a chadw o fewn eu gwersyllfeydd eu hunain.

Ni bu dyfodiad cyntaf Caisar i Frydain ond aflwyddianus, yr ystormydd a'r gwlawogydd a fuont yn wrthwynebol idd ei lynghes, a gwnaethpwyd deugain o'i longau yn ddiwasanaeth. Eto yn raddol, gyda chynorthwy celfradwrol Afarwy ab Lludd, brawd Caswallon, a'i ymwerthiant i ymblaid y Rhufeiniaid yn erbyn ei ewythr, yr oedd arfau a medrusrwydd y Rhufeiniaid yn enill tir, a dechreuodd cynnorthwy Caswallon leihau a llaesu eu gafaelion. Ac er ymdyru o bob cwr o'r Ynys i ymrestru o dan lymanau Caswallon, bu Caisar yn alluog i arwain ei fyddinoedd i gyffiniau y cadlyw Prydeinig i lenydd y Dain, a gyru y Prydeiniaid a'r ffo, a rhoddi gwysteuon i Caisar nad ymgyfodent yn erbyn Afarwy a'i ymbleidwyr, am yr hyn y derbyniodd y cyfenwad teilwng o hono ei hun yn y Trioedd, sef: "Tri Chamfradwr Ynys Prydain; cyntaf oedd Afarwy ab Lludd ab Beli Mawr, a wahoddes Iwl Caisar, a gwyr Rhufain idd yr Ynys hon ac a beris ormes y Rhufeiniaid; sef yr ymroddes efe ac ei wyr yn gyfarwyddiaid i wyr Rhufain, a derbyniaw y ganddynt ged o aur ac ariant bob blwyddyn, ac o hyny y daeth gorfod ar wyr yr Ynys hon dalu tair mil o ariant bob blwyddyn yn deyrnged i wyr Rhufain, hyd yn amser Owain ab Macsen Wledig; ac efe a omeddes y deyrnged hono: a than rith boddlondeb i hyny o beth, y tynent wyr Rhufain oreuon gwyr Ynys Prydain, a ellid gwyr rhyfel o honynt, i wlad Arasia (?) a phell o wledydd eraill, ac ni ddychwelynt yn eu hol; a gwyr Rhufain a oeddynt yn Ynys Prydain a aethant hyd yr Eidal; hyd nad oedd o honynt namyn gwragedd a phlant bychain ar eu hol; ac fel hyny y gwaneid y Prydeiniaid mal nas gellynt wrthosawd gormes a gormedd eisiau gwyr a nerth." Y ddau eraill oeddynt Gwrtheyrn Gwrthenau, a Medrawd ab Llew ab Cynfarch—y cyntaf a ymwerthodd ei hun i wasanaeth y Sacsoniaid pan oresgynasant Prydain, wedi ymadawiad y Rhufeiniaid oddiyma, a'r ail a wnaeth frad ei ewythr, y brenin Arthur, trwy yr hyn y collasant y Cymry GORON LLOEGR A THEYRNEDD YNYS PRYDAIN.

Nid ymddengys fod yr haeriad yn y Triad uchod yn gywir, oblegyd cawn yr achos o ddyfodiad y Rhufeiniaid yma yn eglur a rhesymol am fod y Cymry Prydeinig yn parhau i gynnorthwyo y Cymry Gaulaidd, ac yn gwneyd cymmaint blinder i deimiadau uchelfrydig y Rhufeiniaid,

ac nid oes un ymddangosiad i Afarwy wahodd cadfridogion Rhufain i Frydain, ond amlwg iddo ymgynghreiriaw â hwynt wedi eu dyfodiad cyntaf yma, a hyny yn ddiau dan yr ystyriaeth nad oedd y pennaethiaid, na'i ewythr Caswallon, yn gwneyd yn iawn i gadw awdurdod ac Unbennaeth Prydain yn ei feddiant, tra yr oedd ef a'i frawd wedi dyfod idd eu hoed, canys hwy oeddynt olyddion cyfiawn yr Unbennaeth. Pe buasai Caswallon wedi rhoddi fynu y llywodraeth a'r enw brenin i feibion Lludd, pan ddaeth yr hynaf idd ei oed, buasai cymmeriad cyfiawn Caswallon, yn addurn ac anrhydedd iddo, a theilwng o efelychiad gan brif wareiddion yr oes hon, ond y cyfryw yw awydd ac uchelfrydedd dynol yn mhob oes o'r byd, fel y mae eu heithafion wedi bod yn ddinystr iddynt hwy a'u gwladeiddiaid. Felly Caswallon yn nghanol ei enwogrwydd a gafodd ei berthynasau agosaf ei elynion mwyaf, a'r canlyniad naturiol a gymmerodd le—collodd ei awdurdod ac aeth Prydain yn dalaith o'r ymerodraeth Rhufeinig, a diyspyddwyd hi o'i holl ogoniant cyntefig, lladdwyd ei Derwyddon, attaliwyd ffrydiau awenyddol y beirdd, a darfu am ei hanianyddion, a gwisgwyd yr oll a diwyg Rhufeinig, a gyrwyd yr oll o'r Cymry Prydeinig a allent ddwyn arfau, i ymladd ryfeloedd eu gorchfygwyr, dros holl deyrnasoedd y byd adnabyddus i'r Rhufeiniaid, ac yr oedd miloedd o Gymry Gallia a Phrydain yn y rhengau Rhufeinig pan y cymmerwyd Jerusalem a chyflawn wasgariad y genedl Iuddewig (?) yr hyn o brawf synniad cywir y Triad a ddifynasom o barthed diyspyddiad yr Ynys o'i *gwyr galluog*. Ni ddarfyddodd yr eiddigedd yn mhlant Lludd, ag a ganlynwyd yn mhlant Arfarwy, yn ymddangos y mynent ymddial ar y genedl, a gwerthu eu gwlad a'i phreswylwyr yn gaethion i'r ymerodraeth Rhufeinig, a chymmerwn Triad 22 yn brawf. "Tair Brad Ddirgel Ynys Prydain; cyntaf, bradychu Caradawg ab Bran y gan Aragwedd Foeddawg, merch Arfarwy ab Lludd, ac ei rhoddi yn gaethglud idd y Rhufeiniaid; a bradychu Arthur gan Iddawg Corn Prydain a ddadrinwys ei rin ef; a bradychu y tywysog Llywelyn ab Gryffydd gan Fadawg Min; ac odd y tair brad hyny y bu lwyr orthrech ar genedl y Cymry, ac nis gallasai namyn brad eu gorthrechu." Wedi myned ychydig allan o'r ffordd, rhaid troi yn ein hol a myned at yr hen gadlyw detholedig o eiddo y genedl.

(I'w orphen yn y nesaf.)

RHYFEDDODAU YR AIPHT.

Llythyr V.

Rhyfel-Gerbydau.—Am arfogaeth filwrol yr Aiphtiaid gellid traethu yn helaeth.

Eu prif offerynau oeddynt y bwa, y waewffon, y bicell, y dafl, y cleddyf syth, y cleddyf cam, y fwyell, y darian, yr helm, y llurig emmog, &c. Ond y peth a grybwyllir yn fwyaf arbenig yn yr Ysgrythyrau yw eu rhyfel gerbydau.

Ac o herwydd nad oes ym mysg holl ddarluniau milwrol yr Aiphtgymmaint ag un enghraifft o feirch-filwyr, eithr yn wastad minteioedd o draedfilwyr a rhengau o ryfelwyr mewn cerbydau, pob cerbyd yn cael ei dynu gan ddau farch yn gyfystlys—felly y mae amryw awdwyr yn barnu nad oedd meirch-filwyr, yn yr ystyr gyffredinol, yn arferedig ym myddinoedd yr Aiphtiaid boreuol, er y crybwyllir mor fynych am y cyfryw yn Exod. xiv. 5—28, fel y gellir tybio oddiwrth ein cyfieithiadau ni, fod hanfodiad y fath

ryfelwyr i'w weled yn ddiamheuol yn y desgrifiad o'r fyddin a gymerodd Pharaoh i ymlid ar ol yr Israeliaid.

Sylwa y Proffeswr Hengstenburg ar y mater fel y canlyn—"Y mae yn sicr nad oedd nemawr o bwys yn cael ei roddi ar feirch-filwyr yn amser y Pharaoaid boreuol, ac y mae yn amheuol a oedd rhyfelwyr o'r fath yn eu byddinoedd hwynt o gwbl. Y desgrifiad mwyaf nodedig o fyddin Aiphtaidd yw yr hyn a geir yn Exod. xiv. 6—7. "Ac efe (Pharaoh) a daclodd ei gerbyd ac a gymerodd ei bobl gydag ef; a chymerodd chwe' cant o ddewis gerbydau a holl gerbydau yr Aipht a chadbeniaid (neu yn hytrach cerbyd-ryfelwyr) ar bob un o honynt." Dyma ddarluniad cyflawn o'r ddarpariaeth a wnaeth Pharaoh i fyned i'w ryfelgyrch. Cynnwysai yn gyntaf gerbydau ac yn ail cerbyd-ryfelwyr; ni sonir am feirch-filwyr mwy nag am draedfilwyr.

Y mae hyn hefyd yn eglurhau adn. 9, lle y dywedir, "A'r Aiphtiaid a ymlidiasant ar eu hol hwynt (sef yr Israeliaid), holl feirch a cherbydau Pharaoh a'i wŷr meirch a'i fyddin"—neu yn ol y darlleniad Hebraeg, "holl gerbyd-feirch Pharaoh a'i farchogwyr a'i lu."

Lle y gwelir pe cymerid "gwŷr meirch" yn yr ystyr cyffredin, o rai yn marchogaeth ar geffylau, yna fe ymddangosai cerbydau Pharaoh yn weigion! Eilwaith dywedir yn adn. 17, yn ol yr Hebraeg, "Mi a ogoneddir ar Pharaoh, ac ar ei holl fyddin, ar ei gerbydau ef ac ar ei farchogion." Ac felly yma etto y mae marchogion yn cyfateb i'r cerbyd-ryfelwyr yn adn. 7.

Am hyny os oedd cerbyd-ryfelwyr a meirch-filwyr hefyd, pa fodd y digwyddodd nad ydynt un amser wedi eu crybwyll ynghyd? Drachefn yn adn. 23, dywedir, "A'r Aiphtiaid a erlidiasant ac a ddaethant ar eu hol hwynt i ganol y môr, sef holl feirch Pharaoh a'i gerbydau a'i farchogion."

Yma drachefn pe cymerid marchogion yn yr ystyr cyffredin byddai yn beth rhyfedd fod meirch a cherbydau yn cael eu crybwyll a cherbyd-ryfelwyr wedi eu gadael allan y rhai oeddynt y rhan arbeniçaf o'r llu.

Ac heblaw y lleoedd a nodwyd, y mae yr ymadrodd yn pen. xv. 1, "Tafl-odd y march ei farchog i'r môr," yr hyn a eglurir yn ddigonol yn adn. 4 o'r un bennod, lle ni chrybwyllir am ddim ond dymchweliad cerbydau a cherbyd-ryfelwyr Pharaoh.

Ac ar y sylwadau hyn o eiddo yr awdwr uchod dywedai yr Hybarch a'r dysgedig Dr. Adam Clarke, fod y gair gwreiddiol a gyfieithir Marchog, yn cael ei arfer yn fynych yn yr Ysgrythyrau mewn ystyr amheüus; megys yn Jer. li. 21, "A thi y gwasgaraf y march a'r marchwr; ac â thi y drylliaf y cerbyd a'i farchog." Ond yn yr Hebraeg wreiddiol, medd Clarke, yr un gair a ddefnyddir ddwy waith.

Y mae hen ddarluniau ar gael yn bresenol yn dangos yn eglur nad oedd rhyfel-gerbydau yr Aipht ond ysgeifn iawn eu gwneuthuriad—dim ond ychydig iawn o attegwydd (*frame work*) o goed wedi eu sicrhau yn nghyd a'u haddurno â defnyddiau metelaidd ac ymylwaith lledr.

Eu hochrau oeddynt mewn rhan yn agored ac yn gwbl felly o'r tu ol; ac hefyd mor isel fel y gallai y cerbydwr neidio iddynt gyda'r hawsder mwyaf, a byddai raid iddynt farchogaeth yn eu sefyll canys nid oedd un eisteddle iddynt, er y gallent yn achlysurol pan yn lluddedig eistedd ar yr ochrau neu led-eistedd ar eu sodlau yn ol arferiad pobl y dwyrain. Ni byddai corff y cerbyd yn gorwedd yn gydbwys ar yr echel eithr yn mantoli ymlaen i gryn raddau gan drymhau ar y meirch, er nas gallai cerbyd mor ysgafn beri nemawr ludded iddynt, tra ar yr un pryd yr oedd y cyfryw ddull yn

esmwythau sefyllfa y marchogwyr. A pheth arall yn tueddu i'r un perwyl oedd fod gwaelod y cerbyd wedi ei wneyd mewn ffordd o rwydwaith o gareiau plethedig, ac felly yn cyfateb mewn rhyw fesur i wrthlafnau (*springs*) ein hoes ni.

Yr oedd y cerbydau hyn bob amser yn cael eu tynu gan ddau farch yn gyfystlys, a'r rhai hyny wedi eu trwsiadu yn harddwych, gyda chyfeiriad at ba rai dywedai y priodfab breninol am ei ddyweddi—"I'r meirch yn ngherbydau Pharaoh y'th gyffelybais," Can. i. 9. Byddai ym mhob cerbyd yn gyffredin ddau o bersonau—un yn gweithredu fel rhyfelwr a'r llall fel cerbydwr; er yn wir nad yw y darluniau o frwydrau a buddugoliaethau Pharaoh yn dangos ond y brenin ei hun yn ei gerbyd ef; a hyny fel y tybir oblegid y cyfrifid yn sarhad ar ei fawrhydi roddi dyn cyffredin mor agos ato yn y darlun.

Yr Aipht yn Dyst i'r Beibl.—Y mae cyfeiriadau mynychach at yr Aipht yn yr Ysgrythyrau nag at un wlad arall oddieithr Gwlad Canaan.

A chan fod cynnifer o byramidiau, cof-golofnau, temlau, a beddrodau, a'r cwbl yn cynnwys darluniau o arferion, cynnyrchion a chelfyddydau y trigolion y pryd y gwnaed hwynt, ynghyd â lluaws o enwau breninoedd a nodiadau amseryddol, y mae hyn yn rhoddi mantais i ddangos naill ai cywirdeb neu anghywirdeb yr Ysgrythyrau yn eu crybwylliadau am yr Aipht.

Ystyriaeth ddifrifol pob Cristion ymchwilgar ydyw edrych pa fodd y mae y ddau hyn o'r un wlad yn sefyll tuag at eu gilydd.

Gan hyny y mae yn naturiol gofyn—A ydyw haneswyr Paganaidd yn cytuno a'r *Beibl* ac a hanesiaeth arwydd-luniol y ceryg yn yr Aipht; os nad ydynt y mae cytundeb yr haneswyr sanctaidd a'r arwyddluniau yn myned yn rhyfeddach fyth, gan ddyweyd mewn effaith mai oddiar gywir adnabyddiaeth yr oeddynt yn ysgrifenu!

Y mae prif ysgrifenwyr Groeg a Rhufain wedi gwneyd crybwylliadau am yr Aipht; ac y mae llawer o'r hyn ddywedant am dani wedi cael ei brofi yn anghywir.

Ysgrifenodd Herodotus, a Diodorus, Strabo, a Pliny, hanesion helaeth a rheolaidd am dani. Ond y mae dysgedigion wedi profi fod llawer o'r hyn a adroddir ganddynt fel ffeithiau yn anghywir ac yn anghyson â'u gilydd. Ond ni wnawn yn bresenol ond cyfeirio y darllenydd at Awdwr lle y ceir prawf helaeth o'r hyn a nodasom.—Gwel *Kenrick's Ancient Egypt under the Pharaohs, vol.* 2, *page* 72, 84, 393, *&c.*

Cellan. I Glan Teifi.

GWEDDI GAN FENELON.

Y mae Fenelon, Archesgob Cambray, ar ddiwedd y traethawd yn yr hwn y mae yn profi Bodolaeth a Phriodoleddau Duw, yn arllwys allan ei galon a'i enaid yn un ffrwd o fawl a diolchgarwch i Dduw yng ngheiriau y weddi ganlynol; os rhoddwch le Mr. Gol. i'r weddi yn yr Ymofynydd, yr wyf yn meddwl y bydd hyny er boddlonrwydd i lawer; os na fydd i bawb, 'rwy'n siwr y bydd i V.

"O fy Nuw! Os oes cynnifer o ddynion heb dy gael allan yn yr arddangosiad mawr hwn a roddi iddynt o holl natur, nid yw hyny oherwydd dy fod ti ymhell oddiwrth neb o honom. Y mae pob un o honom yn dy deimlo di, megis a'i law: ond y mae'r teimladau a'r nwydau a gyfodant yn tynnu

holl sylw ein meddyliau. Felly, O Arglwydd, y mae dy oleuni yn disgleirio yn y tywyllwch, ond y mae'r tywyllwch mor dew ac mor gaddugol fel nad ydyw yn derbyn i mewn belydrau dy oleuni di. Yr ydwyt ti yn ymddangos ymhob man; ac ymhob man y mae marwolion anystyriol yn esgeuluso dy ganfod di. Y mae holl natur yn llefaru am danat, ac yn adseinio dy enw sangctaidd. Ond y mae hi yn llefaru wrth ddynion byddar, byddarwch y rhai sydd yn cyfodi oddiar y sŵn a'r dadwrdd y maent hwy yn wneud i syfrdanu eu hunain. Yr ydwyt ti yn agos ac o'u mewn hwy: ond y maent hwy yn ffoi ac yn crwydro megys allan o'u hunain. Dymunent dy gaffael di, O oleuni hoff! O dragwyddol harddwch, byth yn hen a byth yn ifange; O ffynhonnell pleserau pur; O fywyd dedwydd pawb sydd yn byw mewn gwirionedd pe edrychent am danat ti ynddynt eu hunain. Ond nid yw yr annuwiol ddim yn dy golli di ond yn unig trwy golli eu hunain. Och! y mae dy roddion di, y rhai a ddylent ddangos iddynt y llaw o'r hwn y maent yn dylifo, yn rhoddi cymmaint o ddifyrwch iddynt fel y mae yn eu rhwystro i'w weled. Y maent yn byw trwyddot ti, ac etto y maent yn byw heb feddwl am danat; neu yn hytrach y maent yn marw wrth ffynnon bywyd o eisiau disychedu eu hunain yn y ffrwd adfywiol hono: canys pa farwolaeth mwy all fod na bod hebot ti, O Arglwydd? Y maent yn syrthio i gysgu ar dy fynwes dyner a thadol di; ac yn llawn o'r breuddwydion twyllodrus gan y rhai y maent yn cael eu hysgwyd yn eu cwsg, y maent yn anystyriol o'r llaw nerthol sydd yn eu cynnal. Pe buasit ti, gorph diffrwyth, diwerth, a difywyd, fel y blodeuyn sydd yn diflannu ymaith; yr afon sydd yn rhedeg; y tŷ sydd yn adfeilio ac yn syrthio i'w bwll; y darlun yr hwn nid yw ond casgliad o liwiau i synu'r darfelydd; neu megys mettel diddefnydd sydd yn dysgleirio: buasent yn dy ganfod di, ac yn garuaidd yn priodoli i ti y gallu o roddi iddynt beth pleser; er, mewn gwirionedd, nad yw'n bossibl fod pleser yn deilliaw oddiwrth fodau difywyd, y rhai nid ydynt yn alluog eu hunain i'w fwynhau, ond oddiwrthyt ti yn unig, gwir ffynhonell pob llawenydd. Pe buasit ti gan hyny ddim ond bôd pendrwm, egwan, a difywyd; clamp heb un rhinwedd na gallu; cysgod bod; buasai'r natur wag a lledrithaidd yn ymborth i'w gwagedd, ac yn wrthrych priodol i ddifyru eu meddyliau gwael ac anifeilaidd. Ond am dy fod ti yn rhy agos o'u mewn hwy, a hwythau ddim byth gartref, yr ydwyt iddynt yn Dduw nid adwaenir: canys tra y maent yn crwydro oddiamgylch y mae y rhan agos *(intimate part)* o'u hunain ymhell o'u golwg. Y mae'r trefn a'r harddwch a wasgeri dros wynebau'r creaduriaid megys goleuni dysglaer, yr hwn sydd yn dy guddio di oddiwrthynt, ac yn dallu eu llygaid tost. Felly y mae y goleuni hwnw a ddylasai eu goleuo yn eu gwneuthur yn ddall; a phelydrau yr haul eu hunain yn eu rhwystro i'w weled! Oherwydd dy fod ti yn rhy dderchafedig, ac yn wirionedd rhy bur i gyffroi teimladau musgrell, nid ydyw'r dynion sydd yn troi megys yn anifeiliaid yn gallu dy ganfod, er bod gan ddyn enghreifftiau anwrthwynebol bob dydd o ddoethineb a rhinwedd heb dystiolaeth un o'u synwyrau, oblegid nid oes gan y rhinweddau hyny na sŵn, na lliw, nac arogl, na chwaeth, na ffurf, nac unrhyw ansawdd teimladwy. Pabam ynte, O fy Nuw, y mae dynion yn galw dy Fodolaeth, a'th Ddoethineb, a'th Allu i amheuaeth yn fwy nag y maent yn ammheu y pethau eraill hyny, y rhai ydynt yn fwyaf amlwg ac eglur, gwirionedd y rhai y maent yn eu tybied yn sicr yn holl orchwylion pwysig bywyd, y rhai ydynt er hyny megys ag yr ydwyt ti, yn diange ar ein sylw gwan. O drueni!

O nos dywell sydd yn amgylchynu plant Adda! O hurtrwydd anferthol! O ddyryswch yr holl ddyn! Nid oes gan ddyn lygaid ond i weled cysgodau, ac y mae gwirionedd yn ymddangos yn lledrith iddo. Y mae yr hyn nid yw ddim yn bob peth; a'r hyn sydd bob peth yn ddim iddo. Pa beth yr ydwyf yn ei ganfod yn holl natur? Duw. Duw ym mhob man, ac etto Duw yn unig. Pan byddwyf yn meddwl, O Arglwydd, fod holl fodoldeb ynot ti, yr ydwyt o anwn gwirionedd yn dyhysbyddu ac yn llyngcu fy holl feddyliau. Nis gwn pa beth sydd yn dyfod o honof. Y mae pa beth bynag nid ydwyt ti yn diflanu, ac nid oes braidd cymmaint o honof fy hun yn aros fel y gallwyf gael gafael ynof fy hun drachefn. Yr hwn ni'th welodd di ni welodd ddim erioed; a'r hwn nid ydyw deimladwy o honot ti, nid ydyw erioed wedi teimlo dim. Y mae megys pe byddai heb fod. Nid yw ei holl fywyd ond breuddwyd. Cyfod, O Arglwydd, cyfod. Todded dy elynion megys cwyr, a diflanant megys mwg oddi gerbron dy wyneb. O mor annedwydd ydyw'r enaid annuwiol, yr hwn ag efe ym mhell oddiwrthyt ti sydd heb Dduw, heb obaith, ac heb gysur tragywyddol! ac O, mor ddedwydd yw yr hwn sydd yn chwilio, yn dyhëu, ac yn sychedu am danat ti! Ond perffaith ddedwydd yw efe, ar yr hwn y mae pelydrau dy wynebpryd di yn tywynu; dagrau yr hwn sydd wedi cael eu sychu gan dy law di; dymuniadau yr hwn ydynt eisoes wedi eu perffeithio gan dy gariad di! Pa bryd y daw yr amser hwnw, O Arglwydd? O hyfryd ddydd, heb na chwmwl na therfyn, i'r hwn y byddi di dy hun yn haul, ac yn yr hwn y cei dithau, fy enaid, redeg megys ffrwd o hyfrydwch! Ar y gobaith hyfryd hwn y mae fy esgyrn yn crynu ac yn gwaeddi: "Pwy sydd gyffelyb i ti, O Arglwydd? Y mae fy nghalon yn toddi, a'm cnawd yn pallu, O Dduw fy enaid a'm cyfoeth tragywyddol."

GWOBRWY EGWYDDOR DDA.

Pan oedd y Rabbi Israel o Brunswick yn fachgen, yr oedd yn dlawd iawn, ac un diwrnod wedi dyfod at fynachdŷ yn lluddedig ac yn newynog iawn, gofynodd i'r Abad am rywbeth i'w fwytta. Gorchymynodd yr Abad i roddi tamaid o gig mochyn iddo. Attebodd Israel o Brunswick, druan:—Maddeuwch i mi, barchedicaf syr, ni chaniateir i mi i fwytta cig moch. "Wel, wel," meddai'r Abad, "os ydwyt gymaint o ffwl cei fod heb ddim." Aeth yr Iuddew druan ymaith â bola gwag. Danfonodd yr Abad gennad ar ei ol i orchymmyn iddo i ddychwelyd. Ar ei ddychweliad dywedodd yr Abad wrtho: "Yn awr gan dy fod mor gydwybodol, ac yn chwenych yn hytrach i ddioddef newyn na throseddu eich cyfraith chwi, gwnaf di yn oruchwyliwr fy monachdŷ." Aeth Israel yn y blaen yn llwyddo yn y byd, nes y daeth yn ddyn o'r cyfoethoccaf yn Brunswick; a gwnaeth Napoleon ei fab Jaesbron yn *Knight of the Legion of honour*. A. B. C.

Englyn cyfansoddedig ar ol darllen "Ymson y Bardd," yn yr Ymofynydd am fis Mehefin, 1862.

Awenawl, wrawl, eres,—gododog
Hediadau dirodres,
Arlwyon ceinion, cynes—Bardd natur,
Yw diliau a mesur ein D. L. Moses. G. Gwenog.

CYNNWYSIAD Y DDEDFRYD YN ERBYN DR. ROWLAND WILLIAMS A MR. WILSON.

Y MAE amryw adroddiadau wedi ymddangos o'r ddedfryd bwysig hon, gydag ac heb sylwadau. Ein hamcan ni, ar hyn o bryd, fydd gosod ger bron ein darllenwyr yr hyn a ymddengys yn grynodeb teg, neu dalfyriad o'r penderfyniadau ar yr amrywiol byngciau pa rai y gelwid ar Dr. Lushington i roddi barn arnynt. Bydd y darllenydd wrth fyned ymlaen, wrth gwrs, i ffurfio ei farn ei hun am berthynas y ddadl yma âg achos rhydd-ymofyniad â chrefydd resymol: o leiaf caiff weled pa fath yw sefyllfa *wasaidd* holl weinidogion yr eglwys wladwriaethol o'r uchelaf i lawr hyd yr iselaf o honynt. Y crynodeb a ganlyn a gymmerwyd o'r *Inquirer*, Gorph. 19.

YR YDYS WEDI PENDERFYNU gan y ddedfryd—er mai *adolygiad* yw Erthygl Dr. Williams, ei fod ef wedi gwneud ei hun yn gyfrifol am yr opiniynau a osodir i lawr ganddo megis o waith y Barwn Bunsen.

Nad ellir derbyn y difyniadau allan o'r Ysgrythyr Lân fel yn erbyn y cyhuddedig. Mai nid gwaith y Llys *(court)* yw profi "cyfeiliornad duwinyddol," neu pa un ai ydyw Dr. Williams yn iach yn y ffydd ai nid yw; ond pa un ai ydyw wedi cyhoeddi pethau ag sy'n groes i'r "Ethyglau Crefydd," ac i'r *Liturgy*, â pha rai yn unig mae a fynno'r Court, ac nid â'r Ysgrythyr.

Nad oes gan gerydd *(censure)* "yr holl Faingc Esgobawl" ddim i'w wneud â'r cwestiwn; mai nid cwestiwn o ddifinyddiaeth, eithr o *gyfraith* ydyw.

Nis gall y *Court* gymmeryd sylw hyd yn oed o "duwinyddion mwyaf dysgedig ac uniongred ein Heglwys," gan ei fod yn hollol anghofus o bob peth ond o'r "ffurfiau" *(formularies)* sydd o'i flaen.

Y gall offeiriad *feddwl* fel y mynno "yn ei fynwes ei hun;" nad oes â wnel y *Court* ond yn unig â'r hyn y mae yn ei fyntumio a'i gyhoeddi.

Nad oes dim a wnel y *Court* â'r hyn sydd *wir;* ond yn unig â'r hyn sydd ysgrifenedig yn y ffurflyfrau. Os bydd dynion o uchel ddysg a gwybodaeth i *brofi* unrhyw beth yn groes i'r Erthyglau, "*mai dyledswydd y Court yw troi y clust byddar.*" Rhaid ufuddhau i'r gyfraith hyd yn oed mewn amgylchiadau fyddont yn afresymol i'r eithaf.

Y dichon fod yn yr Eglwys rai "cwestiynau agored," ond pa rai ydynt, nid oes modd i benderfynu ond trwy gyfeirio at yr Erthyglau, &c. Unrhyw beth nad ydynt hwy yn ei benderfynu a ellir ei ystyried "yn agored," onite nid felly.

Caniatëir appeliadau at yr hyn a wnaed o'r blaen *(precedents)* yn unig mewn ffordd o hunan-ddiffyniad i'r person cyhuddedig. Nad yw opiniynau a ddaliwyd gan "dduwinyddion enwog" i gael eu difynu fel "prawf o athrawiaeth yr Eglwys;" ond yn unig fel yn dangos pa "*ryddid* mewn opiniwn" a ganiatawyd.

Y bydd y gyfraith i ddal y tanysgrifiwr i'r Erthyglau a'i gadw wrth ei ymrwymiad *(bond)* "*secundum animum imponentis:* h. y., yn ol meddwl cyfansoddwyr y cyfryw erthyglau.

Na chaniatëir un ystyr arall, ond yr un "eglur llythyrenol a grammadegol" wrth esponio yr Erthyglau.

Pan y mae diacon yn proffesu "credu holl Ysgrythyrau Canonaidd yr Hen Destament a'r Newydd," nad yw ei broffesiad, "yr wyf yn eu credu," i gael ei gymmeryd fel yn cynnwys ystyriaeth o'r hyn y mae ef yn gredu a

gynnwysir ynddynt; gan fod yr Ysgrythyrau, o angenrheidrwydd, yn gyfansoddedig o copiau a chyfieithiadau, ac yn cynnwys pob amrywiaeth parth testun, ieithwedd, ac amcan.

Mai ystyr gyfreithiol y frawddeg "Ysgrythyr Lân" yw Ysgrythyr "o darddiad dwyfol;" ac ei fod yn heresi i ddywedyd fod yr Ysgrythyrau Sanctaidd wedi deilliaw oddiwrth yr un galluoedd meddyliol ag sydd wedi cynnyrchu gweithiau eraill, er caniatau fod y galluoedd yma, yn y naill a'r llall, yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd mewn gradd.

Gall *rhanau* o'r Ysgrythyr gael eu gwrthod megys "wedi eu dwyn i mewn yn gyfeiliornus," ond dim llyfr cyfan, canys byddai hynny i wadu llyfr ag a fuasai wedi ei gyhoeddi yn *ganonaidd* gan y gyfraith.

Gall offeiriad fyntumio na chafodd rhai llyfrau penodol eu hysgrifenu gan yr awdwyr y cyfrifir hwy iddynt, eithr gan rywrai eraill; oblegyd gellir hyn ac etto dderbyn y llyfrau fel rhai "canonaidd ac ysprydoledig."

Fod Dr. Williams, yn ei waith yn dywedyd am y Beibl mai "Mynegiant rheswm duwiolfrydig" *(an expression of devout reason)* ydyw, yn euog o groesi y 6fed Erthygl, yr hon a gynnwys fod y Beibl wedi ei ysgrifenu trwy gyfryngiad Duw; oblegyd peth yw "rheswm duwiolfrydig" ag sy'n perthyn i weithredoedd a chyflawniadau dynion, ac nid i weithredoedd yr Holl-alluog.

Y *gall* offeiriad appelio at gynneddf sy'n galluogi dyn i wahaniaethu rhwng yr hyn sydd wir a'r hyn nid yw, *("a verifying faculty")* ac y *gall* wrthod rhanau o'r Ysgrythyr ar ei opiniwn ei hun fod yr hanes ynddi ei hun yn anghredadwy, &c., ond iddo beidio cario hyn ymlaen hyd at wrthwynebu Erthyglau a ffurfiau yr Eglwys.

Fod Dr. Williams yn euog o droseddu y 6fed a'r 7fed Erthygl, trwy ddywedyd, mai "Gair ysgrifenedig y Gynulleidfa (*the written word of the Congregation*) yw y Beibl."

Er fod Dr. Williams wedi myntumio "yr elfen foesol" yn mhrophwydoliaethau yr Hen Destament "yn erbyn daroganiad (*prognostication*) llythyrenol," etto nad yw yn euog o'r cyhuddiad yn gwbl, o wadu fod daroganiad neu ragfynegiad yn yr Hen Destament.

Er fod Dr. Williams wedi gwadu bodolaeth unrhyw wir elfen o "Brophwydoliaeth Messianaidd" yn yr Hen Destament, nid oes un troseddiad yn erbyn yr Erthyglau; er fod duwinyddion o'r parch mwyaf wedi cael eu dirmygu.

Nad yw Dr. Williams, wrth wadu mai Daniel a ysgrifenodd Lyfr Daniel, a myntumio i'r llyfr gael ei ysgrifenu yn "nheyrnasiad Epiphanes," ac nad ydyw yn cynnwys prophwydoliaethau, ddim wedi croesi un o Erthyglau crefydd. Dichon ei fod ef yn cyfeiliorni yn fawr, ond nid yw wedi tori ar un gyfraith; oblegyd nid yw beirniadu ar awduraeth, amseriad, ac ystyr y llyfr, ddim yn cynnwys gwadu ei Ganoneidd-dra.

Nad yw Dr. Williams, wedi tori un gyfraith trwy ei waith yn cytuno â Bunsen, mai y Bedwaredd Efengyl oedd yr olaf oll o'r llyfrau diledryw (*genuine*)—ysgrifenedig yn agos i ddiwedd y canrif cyntaf; ac y gall ef fyned ymlaen i ddysgu na ddarfu i'r geiriau "ni esgynodd neb i'r nef, oddieithr yr hwn a ddisgynodd, &c." gael oll eu llefaru gan Grist.

Nad yw Dr. Williams wrth edrych ar lyfr y Dadguddiad fel "rhestr o weledigaethau prydyddawl sydd yn gosod allan ddinystr Jerusalem," ddim wedi troseddu ar un o Erthyglau Crefydd. Nid oes dim a wnelo'r gyfraith

â chwestiynau o ddehongliad pan na fyddo yr Erthyglau, &c., yn cael eu gwrthwynebu.

Y gall Dr. Williams fyned ymlaen i ddywedyd na chafodd yr Epistol at yr Hebreaid ei ysgrifenu gan Saint Paul, ac ei fod "yn dwyn nodau o'r oes *ar ol* yr un Apostolaidd. Gall fod yn ganonaidd er hyny i gyd.

Fod Dr. Williams pan y mae yn gwadu puredd (*genuineness*) ail Epistol Pedr wedi ei adael yn ammheus pa un ai y gwada ganoneidd-dra yr Epistol, ai yn unig nad Pedr a'i ysgrifenodd. Dan yr amgylchiad rhoddir y fantais o'r ammheuaeth i'r cyhuddedig.

A gadael fod Dr. Williams wedi myntumio y "gellir darllen a deall amryw o fynegiadau yr Ysgrythyr ynghylch ffeithiau hanesyddol mewn ystyr hollol ffiguraidd, nid yn llythyrenol eithr mewn ystyr *non natural;* nad ydyw ef, er hyny, wedi troseddu un o Erthyglau yr Eglwys. Rhydd i offeiriad roddi ei esponiad ar y rhanau hanesiol o'r Ysgrythyr, gan nad pa mor gyfeiliornus neu afresymol y byddo; a bydd yn ddieuog o un trosedd o'r gyfraith yr hon sydd yn gofyn yn unig iddo dderbyn y gwahanol lyfrau fel rhanau o'r Canon. Gwnaed a fynno o honynt, cyhyd ag y byddo yn cadw yn glir rhag gwadu un yn neillduol o Erthyglau'r Eglwys.

Fod Dr. Williams yn ei waith yn dywedyd mai "*adferiad* ydyw yr *Iawn* (*propitiation*) o'r heddwch hwnw nad all fodoli tra byddo pechod yn rhanu rhyngom â Chwiliwr y calonau" WEDI TROSEDDU Erthygl 31; yr hon sydd yn dywedyd yn bendant "mai aberthiad Crist a wnaed unwaith ar y Groes," &c., yw yr Iawn, &c.

Fod Dr. Williams, pan y mae yn olrhain "yr athrawiaeth fawr o iechawdwriaeth oddiwrth ddrwg trwy gyfranogiad o yspryd yr Iachawdwr" i lawr at ei dull ofnadwy o "bwrcasu oddiwrth Dduw trwy ddioddefiadau Crist," &c., —yn hytrach yn gwadu athrawiaethau Eglwys Rhufain na'r eiddo Eglwys Loegr (er fod Erthygl 2 yn dywedyd yn bendant i Grist ddioddef a marw i gymmodi ei Dad â nyni, &c.)

Nad yw Dr. Williams, yn ei waith o ymwrthod â'r "dŷb Awstinaidd fod babanod yn etifeddu melldith," ddim o anghenrheidrwydd yn gwadu athrawiaeth yr Eglwys ynghylch "pechod gwreiddiol;" gall fod y dŷb Awstinaidd yn wahanol oddiwrth athrawiaeth yr Eglwys; ac nid ellir ddisgwyl i'r *Court* ddarllen holl weithiau Awstin er cael gweled ai ydyw felly.

Nad yw Dr. Williams, pan yn dywedyd "mai hollol ysprydol oedd yr ymgnawdoliaeth gyda Phaul," yn dywedyd dim ond yr hyn sydd yn ffaith ag yn eithaf gwirionedd, yn ol Rhuf. i. 1—4.

Fod Dr. Williams, pan y dywed mai yr unig beth a feddylir wrth "gyfiawnhad trwy ffydd yw, tawelwch meddwl, neu deimlad o gymmeradwyaeth Duw, yr hyn sydd yn dyfod o ymddiried mewn Duw cyfiawn, yn hytrach nag o ffug am haeddiant trwy gyfrifiad," YN TROSEDDU Erthygl 11, yr hon a ddywed, "y cyfrifir ni yn gyfiawn ger bron Duw yn unig er mwyn haeddedigaethau Crist."

Gwrthodwyd rhestr o gyhuddiadau eraill yn erbyn Dr. Williams, oherwydd nad oeddynt yn benodol, neu ddim i'r pwrpas.

Cymmaint a hyn am y ddedfryd yn matter Dr. Williams. Canlynodd y ddedfryd yn erbyn Mr. Wilson. Cafwyd yntau yn euog mewn dau neu dri o byngciau. Ond rhaid i ni yn awr adael gyda hyn. Y mae yn rhydd i'r ddau gyhuddedig ac i'w cyhuddwyr i appelio at y *Privy Council.*

I.

AR FYCHANU PECHOD A'R DYB AM DDIAFOL.

Beiir ni weithiau am fychanu pechod, oherwydd na siaradwn ond ychydig neu ddim am y diafol. Nid wyf fi yn awr yn myned i gadarnhau na gwadu bodolaeth Diafol.

Pe buaswn yn credu fod Crist wedi dyfod i'w ddatguddio ef, buaswn fel Cristion yn derbyn y datguddiad. O'r tu arall, credaf fod Crist wedi dyfod i ddangos i ni y *Tad;* a digon yw i ni. Pan y siarada efe am y Diafol, fe arfera iaith ag sydd yn gosod allan opiniynau ei gydwladwyr,—felly hefyd am y cythreuliaid (*demons*). Meddylia llawer o Drindodwyr yn gystal â'm hunan, mai clefydau yn cyfodi oddiar achosion naturiol oedd yn blino y personau hyny a sonir am danynt yn y Testament Newydd fel "a chythraul ynthynt." Mae Duw yn cael ei ddatguddio i ni yn yr Ysgrythyrau: a datguddir dyn hefyd, y peth yw a pheth y gall ef fod; ond ychydig a wyddom mewn perthynas i fodau ereill uwchlaw i ni.

Os oes *rhai* o'r cyfryw a gynnysgaeddwyd a galluoedd uwch nâ ni wedi defnyddio y galluoedd hyny er gogoniant Duw; gellir caniatâu y dichon fod *ereill* wedi syrthio a phechu; ond gan fod Iesu wedi galw y blaenaf o'r Apostolion yn *Satan*, a Judas yn *Ddiafol*, fe all fod y gair yn cael ei arfer yn ffigurol. Nid oes genym amser i drafod y pwngc yma yn awr.

Y mae'n ddigon i nodi; tra nad allwn gyrhaeddyd y sancteiddrwydd uwchaf oddieithr ein bod yn credu mewn Duw sanctaidd, etto gallwn ddwys deimlo pechod heb unrhyw gred mewn Diafol: gallwn ofni oospedigaethau pechod tra y credwn mai Duw ac nid Diafol a'u gweinydda; a gallwn ei ffieiddio ac edifarhau o'i herwydd, heb dybied mai rhyw achos anweledig a'n harweiniodd ar gyfeiliorn. Mwyaf tebyg, yn wir, teimlwn mai pechod ein hunain ac nad eiddo arall ydyw pan y taflwn y Diafol allan o'n meddyliau, ac y cofiwn "y temptir pob un pan y tŷner ef ac y llithier gan ei chwant ei hun." Fe all fod rheswm mwy pwysig dros feddwl mai y rhai hyny fychanant bechod, sef y rhai a edrychant arno megis o fewn rhagluniaeth Duw; ond nid yw hwn yn gwestiwn rhwng Undodiaid a Thrindodiaid. Mae'r athrawiaethau Rhyddid ag Anghenrheidrwydd wedi cael pleidwyr o'r ddwy ochr.

Gellir dywedyd am Dduw mewn un ystyr (aneglur) ei fod yn Greawdwr pechod, pan y crëodd bob bod dynol, crëodd yntho ewyllys, crëodd yr amgylchiadau a'i hamgylchynent, a gwyddai er y dechreu beth fyddai ei gymeriad; etto nid yw'n defnyddio ei Hollalluawgrwydd i rwystro pechod.

Nid yw'r anhawsder yn cael ei symud trwy briodoli yr holl bechod i'r Diafol,—canys pwy a'i gwnaeth *ef?* Nag i Adda,—canys pwy a'i gwnaeth *yntau?* Dirgeledigaethau ydyw y rhai hyn nas gall un marwol eu dehongli.

Nid meddyliau Duw yw'n meddyliau ni, na'i ffyrdd ef yw'n ffyrdd ni. Medd y proffwyd yn ei enw, "Myfi yw'r Arglwydd ac nid arall: yn llunio goleuni ag yn crëu tywyllwch: yn gwneuthur llwyddiant ac yn crëu drygfyd: myfi yr Arglwydd sydd yn gwneuthur hyn oll." Drwg sydd ddrwg i ni hyd y nod pe Duw a'i crëodd.

Ni wnai neb ond gwallgof-ddyn gymeryd gwenwyn, oherwydd bod Duw wedi crëu gwenwyn, pe gwybyddai y gosp o hyny; ni wnai neb ond gwallgofddyn gyflawni pechod, oherwydd fod Duw wedi rhoddi gallu iddo i wneuthur hyny, tra mae'r un Duw yn ei rybuddio mai cyflog pechod yw marwolaeth.

Hyd nes meddyliwn yn fach am glefyd a phoen corfforol, ni chymerwn olwg isel ar beth ag sydd yn anfesurol waeth ; canys y mae'r ddau yn dyfod yn rhagluniaeth Duw pan y troseddwn y cyfreithiau hyny ag y mae Ef wedi sefydlu er ein dedwyddwch : ac y mae'r adfyd ag y mae'r ddau yn achosi i fod yn foddion i ddihuno ein holl alluoedd i'w gochelyd, i'w gwrthod, ac i'w gorchfygu. R. L. CARPENTER.

TRIOEDD YR ADDURNAU.—IOLO MSS.

1. TRI enw Addurn Awen, Goleuni'r Deall, diddanwch y Pwyll. Ag athraw gwybodau.
2. Tri enw Addurn Pwyll, Canwyll yr Enaid, Cadernid Doethineb, a gloywder gwybodaeth.
3. Tri enw Addurn Doethineb, Harddwch y nefoedd, Cadernyd diddanwch, a Gair Duw.
4. Tri enw Addurn Deall ; Llygad awen, Clust y Pwyll, a Llawddeau'r myfyrdawd.
5. Tri enw addurn Gwybodaeth, Cadernyd y Byd, Llawenydd Doethion, a Rhad Duw.
6. Tri enw addurn Duw ; Brenin y Nefoedd (enaid y Bydoedd,) Tad Bywydoldeb, ag Anfeidroldeb Cariad.
7. Tri enw addurn y Nef ; Bywyd, Gwynfyd, a Thangnef.
8. Tri enw addurn yr Haul ; Canwyll y Bydoedd, Llygad y Dydd, a hoywder y nefoedd.
9. Tri enw addurn y Lleuad ; Huan Nos, y Ganuaid, Haul y Tylwyth Teg.
10. Tri enw addurn y Ser ; Llygaid hinion, Canwyllau'r Nef (Duw) a Gemmau'r wybren.
11. Tri enw addurn y Mor ; Maes Gwenhidwy, Llys Neifion, a Ffynon-Wenestr. (a Glwyth Byd.)
12. Tri enw addurn y Tonnau ; Defaid Gwenhidwy, Dreigiau'r Heli, a Blodau'r Eigion.
13. Tri enw addurn yr Hâf ; Marchog Serch, Tad y Nwyf, Ceidwad yr Ynial.
14. Tri enw addurn y Gwynt ; Drud Byd, Saer y Dryccin, a Hyrddiwr y Bryniau.
15. Tri enw addurn y blodau ; Gemmau Gwydd, Ceinion, a Llygaid y Tes.
16. Tri enw addurn y llysiau ; Mantell Hâf, Wyneb Harddwch, a neuaddlawr serch.
17. Tri enw addurn y Tes ; wyneb (Gwên) llawenydd, Eli'r Nef, a Gwen (wyneb) Serch.
18. Tri enw addurn Awen, bywyd gwybodau, enaid pwyll, a Dawn Duw.
19. Tri enw addurn Cydwybod ; goleuni'r nef, Llygad gwirionedd, a Llafar Duw.
20. Tri enw addurn gwybod$^{au}_{aeth}$; Llwybr (llwybrau) Gwirionedd, Llaw (dwylaw) 'r pwyll a chadernid awen.
21. [Ond y mae y rhelyw yn eisiau.—AB IOLO.]

ADDYSG.

Y RHAI sydd yn briodol yn teilyngu ein parch ni fel plant, yw y rhai ag ydynt yn gwneuthur eu hunain yn rieni trwy eu daiôni tuag atom, ac nid y rhai hyny ag ydynt felly trwy anghenrheidrwydd yn unig. Y mae pob cyfreithiau naturiol yn gystal a gwladol yn dysgwyl fod rhieni yn magu ac yn gofalu am eu plant, hyd nes y byddont yn alluog i ofalu am danynt eu hunain, a bod y plant gyda thynerwch cyfattebol yn ymddibynu ar eu rhieni am eu cynnaliaeth, ac yn byw mewn ufudd-dod iddynt ymhob peth sydd yn rhesymol. Ond fel mae gwaethaf y modd y mae y cyfreithiau hyn yn rhy aml yn cael eu tori, ac y mae rhieni a phlant yn trin eu gilydd gyda'r gelyniaeth mwyaf. Ond y mae esiamplau yn rhy aml i'w cael hefyd lle mae'r rhieni yn esgeuluso cyflawni eu dyledswydd tuag at eu plant. Ymddyged y rhieni fel rhieni tuag at eu plant, a bydd lle ganddynt wedi'n i ddysgwyl

am gariad ac ufudd-dod. Bydded iddynt ymddwyn yn serchog ac yn gariadus tuag attynt. Bydded iddynt weinyddu cerydd, pan byddo hyny yn anghenrheidiol,* ond bydded i'r cerydd i gael ei roddi mewn cariad, ac nid mewn natur ddrwg. Os bydd y tad yn ceryddu er lles, cyfyd parch yn mynwes y plentyn pan ddelo yn ddigon hen i ystyried hyny. O na fyddai rhieni yn cofio ac yn teimlo gwirionedd geiriau yr hen fardd o Gastell-Hywel, gallasai fod er cysur mawr iddynt hwy a'u plant yn nyddiau eu henaint—

"Chwi dadau mwynion, os dymunwch
Y doniau gorau i'r plant a gerwch,
Er y byd, O! nac arbedwch
Eu ceryddu mewn careiddwch!
Distrywyd llawer trwy dosturi;
Eich plant na yrrwch, trwy'ch tirionwch, i'r trueni!
Achub llawer llange anhywaith,
Gwyllt, penhoeden, y mae'r wialen, rhag marwolaeth."

Caffed y plant eu hegwyddori gan eu rhieni yn eu holl ddyledswydd, a chaffent nerth i fyw yn unol a'r egwyddorion hyny; a chaffed y rhieni, pan fyddo'r pren almon yn blodeuo a'r ceiliog rhedyn yn myned yn faich, y fraint o fwynhau, am hir amser, y bendithion a ddeilliant oddiwrth roddi addysg briodol i'w plant. O mor hyfryd fydd ymadael a'r byd pan byddont yn teimlo eu bod, hyd yr oedd ynddynt, wedi gwneuthur eu dyledswydd tuag at bawb, a'u cydwybodau yn ymorphwys mewn hedd, mewn tangnefedd a dynion ac mewn tangnefedd a Duw.

SANT BARTHOLOMEUS.

Ychydig iawn wyddom ni am Sant Bartholomëus. Nid yw ei enw yn dygwydd ond pedair gwaith yn y Testament Newydd, ac nid yno ond yn y llechresi o'r deuddeg Apostol. Felly nis gallwn ddywedyd dim yn ychwaneg am dano na'i fod yn Apostol i Grist, a'i fod, o ganlyniad, wedi gweled y dygwyddiadau hyny yn hanes yr Iachawdwr, y rhai y dywedir fod yr *holl* Apostolion yn bresennol pan y cymmerasant le.

Ond lle y byddo Ysgrythyr yn ddistaw, y mae traddodiad yn debyg o fod yn aml eiriog, ac y mae hi wedi dywedyd llawer iawn o bethau wrthym am yr Apostol Bartholomëus, am y rhai y gallasem chwilio yn ofer yn ysgrifeniadau yr Efengylwyr. Dywed wrthym ei fod yn nai i Frenin Syria, neu feallai yn ŵyr, canys y mae'r traddodiad wedi dyfod attom trwy gyfrwng Lladinaidd, a'r gair yn yr hanes yma yw *nepos*, yr hwn y gellir ei gyfieithu yn un yn gystal a'r llall. Ond braidd y gellir cyssoni hyn â'r hyn a wyddom am enedigaeth a sefyllfa cymdeithasol cyfeillion yr Iesu. Nid tywysogion paganaidd oeddynt, ond dynion gwledig, pysgodwyr, casglwyr trethi Iuddewig a'r cyffelyb oeddent. Etto y mae rywfaint o sylfaen i'r chwim yma. Yn y Syriaeg y mae'r enw yn arwyddo "mab Ptolemëus," ac yr oedd Ptolemëus yn enw llinach o frenhinoedd. Y mae Cruden yn ei Eiriadur Ysgrythyrol yn dywedyd fod Bartholomëus yn arwyddo "mab sydd yn crogi dyfroedd," gannad beth yw ystyr hyny. Ond y mae Cruden yn camsynied: ystyr yr enw yw, mab Ptolemëus, ac yr oedd Ptolemëus fel y dywedwyd eisioes yn enw cyffredin i linach o frenhinoedd: ond yr oedd y brenhinoedd

* Gwel Ddiarhebion Solomon xxiii. 13, 14.

yma yn llywodraethu yn yr Aipht, ac nid yn Syria. Beth bynag nid oedd yr enw Ptolemëus ddim yn gyfyngedig iddynt hwy; yr oedd yn enw cyffredin ymhlith pob math o bobl; yn wir nid oedd y cyntaf o'r tywysogion a enwyd felly ond cerbydwr yn wreiddiol, ac y mae yn dichonadwy fod y cyndad oddiwrth yr hwn y derbyniodd yr Apostol Bartholomëus ei enw yn byw mewn sefyllfa isel. Tebyg iawn yw dywedyd fod ei dad neu ei dadcu yn cael ei alw Ptolemëus ag yw dywedyd ei bod yn rhaid fod pob Sais, am ei fod wedi deilliaw oddiwrth ddyn o'r enw George, yn perthyn i'r teulu brenhinol.

Y mae traddodiad ymhellach wrthym fod Bartholomëus wedi pregethu yr Efengyl yn yr India. Dywedir fod Pantaerëus wedi cael gafael yn yr Efengyl yn ol Matthew, yn yr iaith Hebraeg, ymhlith y Cristnogion yn yr India, yr hwn a adawyd ymhlith eu hynafiaid gan Bartholomëus. Dywedir ei fod hefyd wedi pregethu yn Armenia, ond y mae'r hanesion ynghylch ei athrawiaeth yn frai ac yn anfoddhäol. Dywed ysgrifenydd o'r enw Abdias fod Bartholomëus wedi dywedyd wrth Polimius, brenin Armenia, mai "Mair, mam Crist, oedd y fenyw gyntaf a wnaeth i Dduw adduned o forwyndod parhaus." Ond ni fu erioed frenin o'r enw Polimius yn Armenia, ac nis gallai Bartholomëus fyth ddywedyd wrth neb yr ystori y mae'r coeg-ysgrifenydd hwn yn osod yn ei enau, canys tystiolaeth unfrydol yr Ysgrythyrau yw fod Mair yn briod, ac y mae'r ysgrifenwyr sanctaidd yn arwyddo yn amlwg ei bod hi yn fam i amryw o blant. Dyna'r cwbl sydd gan draddodiad i adrodd—y cwbl o'r hyn leiaf a'ddywed am bregethu Bartholomëus. Nid ydyw yn llawer; ond nid yw fel y mae, yn wirionedd.

Y mae awduron y canol-oesoedd yn cyttuno yn agos iawn yn eu tystiolaeth fod Bartholomëus wedi cael ei osod i farwolaeth yn Armenia. Yn ol tystiolaeth Nicephorus cafodd ei groeshoelio yn ninas Hierapolis. Ond ni fu efe farw y tro hwnw; cafodd ei achub trwy wyrth. Daliwyd ef drachefn; a phenderfynodd ei erlidwyr, wedi eu rhybuddio gan eu profiad blaenorol, na fuasai dim yn ei achub y tro hwn. Dihatrwyd ef yn gyntaf o'i groen, ac wedi hyny crogwyd ef. Yr oedd hyn yn ddigon; efe a fu farw.

Y mae y rhan amlaf o fywgraphyddion yn terfynu eu hystorïau gyda marwolaeth eu harwyr. Ond y mae traddodiad yn gallu myned tu draw i'r bedd, a roddi gwybodaeth i ni am yr hyn sydd yn cymmeryd lle yn y byd anweledig. Dywed Abdias fod "cythraul," pan gofynwyd iddo ynghylch tynghed Batholomëus, wedi atteb "na ddarfu i'w ddillad ddwyno dim yn ystod y chwe' mlynedd diweddaf, a thrwy ystod y pum mlynedd ar hugain diweddaf ni heneiddiodd ei esgidiau ddim." Cafodd yr atteb hwn, yr hwn, os oedd iddo unrhyw sail, nid oedd ddim amgen na ffrwyth penwendid gwallgofddyn, ei drysori megys oracl a'i drosglwyddo i ninnau fel dywediad o gymmaint gwirionedd ag ydyw o bwys—ac y mae yn ddiammheu ei fod. Gallesit dysgwyl cael rhywbeth mwy sylweddol yn y traddodiadau ynghylch ei weddillion corphorol; ond y mae'r hanesion sydd wedi ein cyrhaedd yn anghysson iawn a'u gilydd. Dywed un awdwr wrthym fod yr Ymerawdwr Anastasius wedi cael gafael yng ngweddillion Bartholomëus yn y flwyddyn O. C. 500, ni ddywedir pa le na pha fodd y cafwyd gafael arnynt, ond iddo ef eu trosglwyddo i Mesopotamia. Ond y mae Theodorus Studites, yr hwn sydd wedi gadael ar ei ol draethawd ag ol llafur mawr arno, o glod i'r Apostol hwn, yn adrodd ystori wahanol. Dywed fod trigolion Abbanapolis, lle claddwyd gweddillion Bartholomëus, wedi cael eu blino gan lliaws o

wyrthiau a gyflawnwyd wrth ei fedd ef a beddau pedwar merthyr arall a gladdwyd gerllaw iddo, ag iddynt gloddio i fynu weddillion y pump dyn sanctaidd a'u lantsio mewn coffinau ceryg ar y mor Euxine. Nofiodd y pump i lawr i'r Euxine trwy y Bosphorus, y Propontis, yr Hellespont, y mor Aegëaidd a'r mor Ionaidd nes cyrhaedd penrhyn gorllewinol Sicili. Yna yr ymwasgarasant bob un i'r ddinas y dewisasai yn orphwysfa i'w esgyrn. Aeth esgyrn Bartholomëus i ynys a adnabyddir yn bresennol wrth yr enw Lipari, a chawsant eu derbyn gyda phob parch: gyda chymmaint yn wir fel y darfu i fynydd tanllyd, yr hwn oedd yn llosgi yn ffyrnig gerllaw y lle y tiriasai, i symud yn union tua saith ystad oddiyno, fel na buasai un rhwystr ar ffordd y sant.

Hawdd y gallwn wenu ar yr hanesion hyn, canys y maent yn ddiammheu ar un olwg yn foddion i grëu chwerthin, ond ar olwg arall y maent yn hytrach yn wrthddrychau tosturi. Ond fel y maent, cawsant eu gwasgar, a'u derbyn a'u credu yn yr un oesoedd, ac yn aml gan yr un dynion ag ydynt wedi gadael i ni athrawiaeth y Drindod, Pechod Gwreiddiol, Trawssylweddiad, Addoliad y Seintiau, Olyniaeth Apostolaidd, a gallu yr offeiriaid i faddeu pechodau; *coinage* ydynt oll o'r un *mint*.

Y mae's yn ymbil ar Bartholomëus yn eglwysi Groeg a Rhufain ac yn yr Eglwysi Dwyreiniol hyny lle yr arferir galw ar y Seintiau mewn gweddi. Yn y defod-lyfr Rhufeinig, nid oes dim llai na dau ddiwrnod wedi eu neilldu'o er coffadwriaeth am yr apostol hwn; er mai y 24ain o Awst a feddylir bob amser wrth gyfeirio at "Wyl St. Bartholomëus" Yng ngwasanaeth y dydd hwnw y mae's yn gweddio arno wrth ei enw, ac yn ymbil arno i eiriol gyda Duw o du ei addolwyr. Er mwyn gwneuthur y gwrthuni yn gyflawn, y mae'r addolwyr yn troi ac yn eiriol gyda Duw drosto ef, gan ddeisyf ar yr Hollalluog i wrando ei weddiau ef ac i gyflëu gras y nefoedd arnynt hwy trwy ei weddiau ef yn eu ffafr. Y mae yn deilwng o sylw fod gweddi yn y defod-lyfr Rhufeinig, yr hon a gyflwynir yn wastad ar Wyl St. Bartholomëus, yn deisyf am gynnorthwy a rhyddhad yn amser erledigaeth.

Y peth sydd yn gwneud hyn yn deilwng o sylw yw y cyssylltiad sydd yn bod rhwng enw Bartholomeus a'r coffadwriaeth am lawer o weithredoedd o erledigaeth creulawn, y rhai a gyflawnwyd gan ddynion camsyniol, o lawer credo, yn y dyddiau gynt; rhai o honynt gan ddynion oedd yn codi oddiwrth y weddi hon ei hunan i gyflawni llofruddiaethau ysgeler.

Y man a ddewisit yn fwyaf cyffredin er cyflawni y *writ* "er llosgu hereticiaid" yn Lloegr, oedd y rhan hono o *Smithfield* sydd yn gymmwys gyferbyn a chlwyd Yspytty St. Bartholomëus, yn ninas Llundain. Yma y llosgwyd llawer iawn o'r Lollardiaid (h.y. canlynwyr Wicliff) yn y dyddiau a ragflaenent y Diwygiad; yma yr arllwysodd y gwaedlyd Harri yr VIII. a'i ddwy ferch, y rhai oeddent mor waedlyd ag yntau, eu llid ar Brotestaniaid neu Gatholiciaid, fel y byddai mantol wammal mympwy brenhinol neu ddylanwad offeiriadol yn tueddu at un ochr neu ynte at y llall. Yma hefyd y dioddefodd llawer yn y fflamiau oherwydd dal y gwirionedd santaidd mai un yw Duw.

* * * *

Gwyr pob un braidd mai ar ddydd St. Bartholomeus, yn y flwyddyn 1572, y gwnaethpwyd difrod cyffredinol o'r holl fonedd a dinasyddion Protestanaidd a allesit cael gafael arnynt yn ninas Paris. Cawsant eu gwahodd yno gan y Llŷs dan yr esgus o gadw gwyl priodas Brenin ieuange Navarre â chwaer penadur Ffrainge, ac yr oedd llywodraethwr y wlad, y brenin Siarls IX. nid yn unig

yn annog cyflawniad yr ysgelerder annynol, ond taniodd â'i law ei hun ar ei ddeiliaid hereticaidd, y rhai a fföent heb ddim arfau o flaen y werinos ffyrnig a geisient eu bywydau. Ar y noson dywell hono cafodd 3000 eu mwrddro yn Paris yn unig; ac 20,000 yn ychwaneg yn ystod rhyw ychydig o wythnosau yng ngwahanol drefi a thaleithiau y deyrnas, y rhai a ddilynent esampl y brif-ddinas. Nid oeddys yn arbed unryw oedran na gradd na rhyw. Ni ddarfu i benllwydni yr Admiral de Coligny ei amddiffyn; efe oedd y cyntaf osodwyd i farwolaeth y noson waedlyd hono. Cafodd cannoedd o fabanod wedi eu geni ac heb eu geni, eu lladd mewn gwaed oer, a than amgylchiadau o greulonder barbaraidd, yn dystiolaeth rhyfedd o frwdfrydigrwydd y rhai hyny oeddent yn cymmeryd y fath ffordd i wneud gwasanaeth i Dduw.

Ac ymlaen tua 90 mlynedd ar ol hyny cafodd Lloegr ei Gwledd St. Bartholomëus—nid yn wir dydd o waed, ond dydd o wŷlo, a galar, a gofid chwerw. Ar y 24ain o Awst, 1662, cafodd dros 2000 o weinidogion teilwng eu gyru o'u bywiolaethau trwy weithrediad yr *Act of Uniformity*, yr hon oedd yn gofyn ar bob offeiriad personaethol a phob un ag oedd yn dal unrhyw swydd mewn ysgolion a chlasgorau trwy'r deyrnas i fynegu eu cydsyniad perffaith â phob peth sydd yn gynnwysedig yn y Llyfr Gweddi Gyffredin. Yr oedd llawer nas gallent wneuthur hyny yn gydwybodol: ac yn hytrach na gwneud yr hyn oedd eu calon a'u henaid yn gashau ei wneud dewisasant i golli y cwbl y mae y byd hwn yn ei gyfrif yn anwyl. Ond y mae dioddefiadau y gweinidogion esgymunedig hyn wedi cael eu goruchreoli yn y fath fodd ag i fod yn foddion i ledaenu gwirionedd a rhyddid crefyddol dros yr holl fyd.—(*O'r Christian Unitarian.*) S.

Gohebiaethau.

At Olygydd yr Ymofynydd.

Mr. Gol.,—Y mae ychydig o waith wedi cael ei dorri allan i mi yn yr Ymofynydd diweddaf, mewn dull o ofyniadau i'w hatteb. Y mae'n hawddach o lawer gofyn nac atteb fynychaf; er hynny ymdrechaf wneuthur fy ngoreu i atteb un neu ddau o'r gofyniadau yn y rhifyn hwn, gan adael y gweddill hyd y nesaf.

1. *Gofyniad Dewi o'r Dyffryn* i roddi eglurhad ar Matt. xii. 29, a'i chyssoni a chyfrifoldeb dyn a rhyddid ei ewyllys. Buasai yn well gennyf iddo eirio ei ofyniad fel hyn:—a'i chyssoni â chyfrifoldeb dyn fel rhydd weithredydd. Y mae'r ewyllys yn rhwym wrth yr annogaeth gryfaf yn wastadol; etto y mae dyn yn rhyddweithredydd, hynny yw, yn rhydd i weithredu yn ol penderfyniadau ei ewyllys.

Wel, nid wyf yn meddwl fod a fynno yr hen Satan â'r matter oll. Er mwyn gweled meddwl Crist yn fwy amlwg, ni a ddechreuwn gyda'r amgylchiad ddarfu achosi yr ymddiddan rhwng Crist a'r Phariseaid. Yr oedd newydd iachau dyn gorphwyllog, yr hwn a elwid, yn iaith y wlad bryd hynny, yn ddyn cythreulig, dall, a mud. Pan ddarfu i'r Phariseaid glywed hyn, hwy a ddywedasant, "Nid yw hwn yn bwrw allan gythreuliaid, ond trwy Beelzebub pennaeth y cythreuliaid," adn. 24. Dyma gyfaddefiad teg oddiwrth eu hunain fod gwyrth wedi cael ei gyflawni gan yr Iesu. Nid oedd modd gwadu hyn, ac felly mae'n rhaid ei briodoli i gam achos, neu addef yr Iesu yn anfonedig Duw. Wedi iddynt briodoli y gwyrth rhyfedd hwn i Beelzebub (Duw Ekron, neu Dduw'r clêr oedd hwn), y mae'r Iesu yn ymresymu â hwynt, ar eu tir eu hunain, yn ol ei arfer, ac yn eu gorchfygu hefyd. Y mae'n dywedyd wrthynt, adn. 25, "Pob teyrnas wedi ymrannu yn ei herbyn ei hun, ni saif,&c." Y mae Crist yma yn gosod o'u blaen, er dynoethi eu ffolineb, y ffaith addefedig nas gall na theyrnas na thŷ, na dim arall

sefyll wedi yr ymrannont yn erbyn eu gilydd. Yna y mae'r Iesu yn cymmwyso'r sylw hwn at yr amgylchiad dan sylw trwy ddywedyd, adn. 26, "Ac os Satan a fwrw allan Satan, efe a ymrannodd yn ei erbyn ei hun; pa wedd gan hynny y saif ei deyrnas ef?" Hynny yw, a channiattau eu gosodiad hwy, fod Satan yn bwrw allan Satan, y canlyniad anocheladwy oedd, nad allasai ei deyrnas sefyll, ac felly, ar eu tir eu hunain yr oedd gosodiad y Phariseaid yn dwyllodrus, ac nas gallasent lai na gweled hynny. Ar ol dynoethi'r twyll, y mae'r Iesu (adn. 28) yn dangos trwy bwy yr oedd ef yn bwrw allan gythreuliaid, neu yn gwella dynion allan o'u synwyrau,—"Eithr os ydwyf fi yn bwrw allan gythreuliaid trwy yspryd neu allu Duw, yna y daeth teyrnas Dduw attoch." Yna y mae'r Iesu yn defnyddio cyffelybiaeth i ddynoethi yr un twyll yn yr adnod y gelwir fy sylw atti, sef 29, "Neu pa fodd y dichon neb fyned i mewn i dŷ un cadarn, a llwyr yspeilio ei ddodrefn ef, oddieithr iddo yn gyntaf rwymo'r cadarn? ac yna yr yspeilia efe ei dŷ ef." Yr oedd Crist yn barod, ebe Kenrick, wedi profi fod y gallu, trwy yr hwn yr oedd ef yn bwrw allan gythreuliaid, yn groes i'r hyn a briodolent hwy i Beelzebub: y mae ef yn awr yn dangos ei fod ef uwchlaw iddo, ar eu begwyddorion hwynt eu hunain; oherwydd megis y mae'n amhosibl i neb yspeilio tŷ un fo'n gryfach nag ef, oddieithr iddo yn gyntaf ei rwymo a'i analluogi; felly, byddai yn amhossibl i Grist fwrw allan gythreuliaid, oni bai ei fod yn gryfach na Beelzebub, yr hwn a ystyrient hwy yn dywysog y cythreuliaid." Dywed Rosenmüller fel hyn, "Y mae'r Iesu'n egluro'r matter trwy gyffelybiaeth. Os, fel yr addefir gan bawb, fod yr hwn sy'n gorchfygu yn gryfach na'r hwn a orchfygir, chwi ganfyddwch yn rhwydd, fy mod i yn llawer cryfach na thywysog y cythreuliaid." Nid yw'r Iesu mewn un modd yn canniattau bodolaeth Beelzebub na'r cythreuliaid, ond yn unig yn ymresymu â'r Phariseaid ar eu tir eu hunain, ac yn dangos eu coll. Y mae holl athrawiaeth Crist mewn perthynas i Dduw, unig lywodraethwr y cyfan oll, Tad, Duw'r cariad tragwyddol, yn hollol groes i'r dyb fod gan Satan, Beelzebub, na neb arall, un llywodraeth na rhan yn llywodraeth y byd hwn. Eulun oedd y Beelzebub hwn a addolid yn Ekron, ac fe ddywed Paul nad yw eilun ddim yn y byd. Felly nid oes a fynno Beelzebub a meddwl dyn, na Satan, na chythraul chwaith, ac felly nis gallaf ganfod yma y rhwystr lleiaf ar ffordd cyfrifoldeb a rhyddweithrediad dyn. O. EVANS.

Cynnyg i gyflawni cais Thomas Thomas, Pontardawe.

MR. GOL.,—Nid wyf yn gwybod yn iawn p'un a ydyw T.T. yn disgwyl i mi ddangos nad oes trindod yn y gyfran y mae ef yn cyfeirio fy sylw atti. Os ydyw, gall weled fy meddwl yn llawn ar y matter yn yr YMOFYNYDD am fis Mai, 1850, tud. 102; ac os nad yw yr YMOFYNYDD hwnnw yn ei feddiant, hwyrach y bydd i chwi, Mr. Golygydd, ei argraphu pan fo hamdden gennych, os bydd T. T. yn ewyllysio hynny. Ond yn awr at yr adnodau y gofyna esboniad arnynt, sef Matt. xxviii. 18, 19, 20, "Ar Iesu a ddaeth ac a lefarodd wrthynt, gan ddywedyd, Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear:" hynny yw, rhoddwyd i mi bob awdurdod angenrheidiol i sefydlu fy nghrefydd ymhlith Iuddewon a chenhedloedd, yr hyn sydd i ni ddeall yn fynych wrth y geiriau nef a daear yn y Testament Newydd. Yr oedd Crist y pryd hwn wedi derbyn awdurdod i alluogi ei apostolion i gario 'mlaen waith pwysig y weinidogaeth yn ei le ef, trwy dywallt arnynt maes o law addewid y Tad, yr hwn gafodd ei gyflawni ar ddydd yPentecost mewn modd neillduol "Ewch gan hynny, oherwydd yr awdurdod hon, a dysgwch yr holl genhedloedd, neu gwneud dysgyblion o'r holl genhedloedd, gan neu trwy eu bedyddio hwynt, yn, neu i, enw'r Tad, fel rhoddwr y grefydd Gristnogol, y Mab, yr hwn a'i cyhoeddodd, a'r Yspryd Glân, neu'r doniau gwyrthiol a gawsant eu cyfranu i Grist a'i Apostolion i gadarnhau'r gwirionedd yn y byd. Y mae'n gryn gadernid i'r meddwl hwn fod Clemens Romanus, un o'r ysgrifenwyr boreuaf y gellir ymddiried dim nemawr yn eu hysgrifeniadau, yn dywedyd fod yn agos yr un dull yn cael ei arfer wrth fedyddio yn ei amser ef; Constit. Clem. vii. "Y mae bedydd yn cael ei weinyddu yn enw *tou aposteilantos Patros, tou elthontos Christou, tou marturesantos parekletou*: y Tad a anfonodd,

Crist a ddaeth, a'r diddanydd a ddygodd dystiolaeth." Y mae'n deilwng o sylw hefyd nad yw geiriau'r *commissiwn*, fel ei gelwir, byth yn cael eu harfer gan neb yn y Testament Newydd, wrth weinyddu'r ordinhad o fedydd; ond bob amser yn enw'r Iesu, neu'r Arglwydd, neu Crist, yr hyn sydd yn dangos nad oedd y geiriau yn cael eu hystyried o gymaint pwys y pryd hwnnw ag yn awr. "Gan ddysgu iddynt gadw pob peth a orchymynais i chwi;" ar ol bedyddio y mae'r dysgu i gymeryd lle. Yn gyntaf gwneud disgyblion trwy fedydd, ac yna eu dysgu hwynt yn y grefydd newydd. "Ac wele yr wyf gyda chwi hyd ddiwedd y byd, neu'r oes." Gall y geiriau a gyfeithir yma "diwedd y byd," gael eu cyfeithu diwedd yr oes, ebe Kenrick, a gallant gyfeirio at barhad y llywyddiaeth neu'r oes luddewig. Dros yr amser hwn, y mae Crist yn addaw bod gyda'i Apostolion, nid yn bersonol, oherwydd darfu iddo dderchafu i'r nefoedd, ond yn ffigwrol gyda hwynt, trwy alluoedd gwyrthiol yr Ysbryd Glân. Yn yr un modd y mae ef yn siarad am yr un galluoedd mewn man arall, ar ol dywedyd, Ioan xiv. 16, 17, 18, "Mi a weddiaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall, fel yr arhoso gyda chwi yn dragywyddol. Yspryd y gwirionedd, yr hwn ni ddichon y byd ei dderbyn, am nad yw yn ei weled, nac yn ei adnabod: ond chwi a'i hadwaenoch ef; oherwydd y mae yn aros gyda chwi, ac ynnoch y bydd efe. Nis gadawaf chwi yn amddifaid, mi a ddeuaf attoch chwi," heb feddwl dim yn rhagor wrth addaw dyfod attynt a bod gyda hwynt, nag y byddai yr Yspryd gyda hwynt: yr un modd yr oedd yn addaw bod gyda hwynt yn awr. Mewn cadarnhad i'r eglurhad hwn, sylwyd, na ddarfu i'r galluoedd gwyrthiol barhau yn hwy yn yr eglwys nag amser dinystr y llywodraeth Iuddewig, yr hwn, yn wir, oedd yr oes apostolaidd: oblegid ni ddarfu i un o'r Apostolion oroesi y digwyddiad hwnnw oddieithr yr Efengylwr Ioan. O. EVANS.

Gair at Felix, Aberaman.

SYR,—Gofynwch attebiad ysgrythyrol oddiwrthyf i'ch gofyniadau, tra, ar yr un pryd, yr ydych wedi cau fy ngenau rhag dywedyd dim; yr ydych chwi eich hun wedi penderfynu'r pwngc o barthed i dduwdod Crist, pan ddywedwch, "Oherwydd y mae ac yr oedd yn ofynol cael meddu gallu dwyfol i ddyfod a byd fel ein byd ni i fodolaeth o ddim, ac yr oedd Iesu Grist yn meddu y gallu yma." Heb. i. 10. Wel, dyna hi; mae pob dadl ar ben, "*Y mae Iesu Grist yn meddu y gallu yma,*" sef gallu crëedigol, i ddwyn byd o ddim, ac felly yr oedd yn Greawdwr, yn Dduw, ac yn wrthrych addoliad dwyfol yn sicr. Nid oes dim lle, dim modfedd, wedi cael ei adael gennych i mi eich atteb. Ond os canniattewch i mi ymdrechu dangos nad yw'r meddwl a gofleidiwch chwi ddim yn cael ei osod allan gan yr Apostol, gall y bydd geanyf air i chwithau heb fod yn hir. O. EVANS.

At Olygydd yr Ymofynydd.

MR. GOL.,—A welwch chwi fod yn dda i wella gwall niweidiol a ddigwyddodd yn yr YMOFYNYDD diweddaf, tud. 142, llinell 25 o'r gwaelod, dan y III. pen yn fy mhregeth, lle y mae'r geiriau hyn "Mae'r Iesu yn peri i'w haul gyfodi ar y drwg a'r da." Yn lle'r Iesu, darllener y Tad, "Y mae'r Tad yn peri i'w haul gyfodi ar y drwg a'r da."

Yr eiddoch, O. EVANS.

CYFLAWNIAD YR ADDEWID.

At Olygydd yr Ymofynydd.

MR. GOL.,—Diau eich bod yn cofio i chwi ar ddymuniad y Gwyledydd, i addaw ys rhai cannoedd o ddyddiau yn ol, y buasech (trwy ganiatâd a help y pregethwyr), yn cyhoeddi ambell i bregeth a draddodasid yn y Cyfarfodydd Cwarterol, yn yr YMOFYNYDD. Rhaid yw wrth amunedd, canys y mae amser i bob peth, a phob amcan tan y nefoedd. A chyflawnwyd yr Addewid. Felly, rhaid yw i mi gyfaddef i mi gael fy moddloni yn mhell uwch fy nysgwyliad. Y mae pregeth Mr. Evans yn un o'r rhai gorau a ddarllenais erioed. Yr wyf wedi rhoddi ei mhenthyg i rai, a'i darllen yn nghlyw eraill, ag oeddynt bob amser yn barnu yr YMOFYNYDD yn gyhoeddiad peryglus iawn i'w osod yn nwylaw dynion ieuainge, a'r cyfryw yn addaw ei bod yn bregeth wir ardderchawg. Carwn yn fawr i bob derbynydd o'r YMOFYNYDD i roddi benthyg y rhifyn ag sydd wedi cael yr

anrhydedd o ddwyn i'r cyhoedd y bregeth hon, i'w gymydog; wrth wneud felly, diau y bydd yn foddion iddynt i farnu yn fwy cywir ac yn llawer mwy ffafriol am ddaliadau yr Undodwyr. Bydd hefyd yn gymhelliad cryf iddynt wneud fel ag y gofynodd Crist ganddynt, sef myned at y TAD yn ei enw ef, ac yna gwelant mai TAD yn ystyr helaethaf y gair yw Efe. Feallai y deuant i gredu hefyd ei fod yn Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist. Hyderaf Mr. Golygydd taw blaenffrwyth yw hon o aml rai o'i chyffelyb etto. Yr wyf yn wir ddiolchgar i chwi am gofio eich hir oedlog addewid. Ymddengys fod rhyw amrhyfusedd wedi bod rhwng y cysodyddion gyda fy llith am y "Sabbath yn Aberdar," yn gymaint a bod un neu ddau o bethau wedi eu bwriadu i gael ymddangos yn yr ysgrif hono, crefaf eich caniatad am iddynt gael ymddangos gyda'r uchod.

Wedi i mi gael allan nâd oedd un Ysgol yn cael ei chynnal yn yr Hen-dŷ-cwrdd, cefais ei bod mewn ysgoldŷ ëang ychydig yn uwch i fynu. Minau a gyfeiriais fy nghamrau tua'r fan, ac fe'm arweiniwyd gan ryw frawd caredig i ddosbarth o ddynion oll mewn oed, ac yn ddarllenwyr gwych, ond yn ddieithriaid oll ond y Carw Coch i mi. Cefais eu bod yn drefnus iawn yn eu dull o ddwyn ymlaen eu dosparth, sef darllen ychydig a manylu llawer. Yn fuan dyma orchymyn am lafur, a rhif yr Ysgol. A chafwyd fod yno yn agos i 100. Yn hyn fe'm synwyd yn fawr, gan ddwyn i'm cof yr hyn a glywais gan frodor o Aberdar pan y digwyddodd fy mod i ac yntau yn treulio diwedydd yn nhŷ offeiriad parchus y plwyf hwn, trigfan y gwyliedydd. Wrth fyned ar draws y byd a'i bethau, daeth *Sosiniaid Aberdar* i'r bwrdd. Ni allasai y brodor oddef yr enw Undodiaid. Heb fyned dros yr oll a basiodd yno, rhoddaf un frawddeg a ddiferodd dros ei wefusau dienwaededig, "Yr wyf," ebe fe, "yn gyfarwydd iawn a'u capel, (sef y Sosiniaid cofiwch), ac nid oes yno byth nemawr uwchben *dwsin* yn dyfod ynghyd." Felly ddarllenydd, nid oedd yn rhyfedd yn y byd i mi gael fy synu gyda y rhif *cant*, ac, fe ddywedwyd fod llawer yn eisiau y Sabbath hwnw hefyd. Onid yw yn beth i'w ryfeddu Mr. Golygydd fod dynion *respectable*, yr olwg arnynt beth bynnag, yn cael hyfrydwch mewn llunio ac adrodd celwyddau am eu gwell o'r haner, ac am yr unig ddynion ag sydd yn gwneud nemawr ddim o ddefnydd gyda'u crefydd o rodd benaf y Creawdwr, sef synwyr; canys gogoniant Trindodiaeth yw cael ei haelodau i ymwrthod yn hollol a'u synwyr cyffredin gyda phethau crefyddol, gyda'r hyn bethau y mae mwyaf ei eisiau yn ol fy marn i. Ond crafft hyfryd yw hon; unwaith gellwch ddallu dyn, hawdd iawn yw ei arwain ble y mynoch wedi'n. Ond at yr ysgol Sul—cofiwch, wŷr yr Hen-dŷ-cwrdd Aberdar, fod eich llwyddiant i raddau mawr yn ymddibynu ar eich sêl gyda'r Ysgol Sul. Felly ewch rhagoch; diau y medwch o'ch llafur. Gwelwch y fath drafferth y mae yr Eglwys sefydledig yn ei gymeryd gyda'r Ysgol Sul; a phe buasent wrth hyny buasai yn llawer iawn haws maddeu iddynt. Ond rhaid iddynt hwy *stwffio* eu credöau isel-wael hyd yn oed i blant yr Ysgol ddyddiol. Y maent yn deall y grafft hon yn ardderchog. Hyderaf erbyn hyn fod eich tŷ newydd agos a bod yn barod, ac y byddwch chwithau oll wedi eich llenwi â sêl newydd dros egwyddorion eich enwad—enwad ag sydd yn rhaid iddi rhyw diwrnod fod yn ben; nid yn ben i ormesu ar neb, ond yn ben ar dyfeisiadau gormesawl dynion ag sydd wedi cymeryd arnynt y swydd amhriodol o roddi rheolau Ffydd i ddynion, amgen yr hon a roddodd Pen yr Eglwys ei hun. Dywedodd Dr. Lushington yn achos Dr. Rowland Williams, mai â'r 39 erthyglau yr oedd iddo ef ymgynghori, (wrth roddi ei ddedfryd), ac nid â'r Beibl. Ond nid oedd hyny yn beth newydd yn y byd. Onid i'r gyffes ffydd a'r llythyr y Gymmanfa y mae'r Lushingtons y gwahanol enwadau yn cyfeirio, os anturiwch i fyned am draws un o'u *land-marks* hwy. O, ïe, gŵyr y Gwyliedydd yn dda beth yw nerth y *court* hwn. Peth ofnadwy yw cynnyg i reoli ffydd neb, amgen yr hon reol a roddodd Crist; canys bod sydd ar ei gynnydd yw dyn. Felly, Athrawon Ysgol Hen-dŷ cwrdd Aberdar, na ryfygwch roddi terfyn na rhwymyn am feddwl dyn, yr hwn y mae'r nefoedd wedi ei osod yn rhydd. A rhydd y myn ef fod hefyd, neu fod yn dwyllwr. Gwaith enbyd yw ceisio cyfyngu ar y meddwl, nid yw bossibl ei gylcho.

Yr eiddoch, a charwr eich llwydd,

GWYLIEDYDD GLAN TAF.

Hanesion Cartrefol a Tramor.

Y Senedd a'r Wladwriaeth.—Mae terfyniad yr eisteddfod bresennol yn mron wrth y drws; a drwg genym nad oes dim i'w gofnodi am a wnaethpwyd tuag at helaethu rhyddid mewn gwlad nac eglwys. Y cynnygiadau a wnaed i'r perwyl hyny a ddaethant holl i'r dim y tro hwn etto. Diau y dygir hwynt ymlaen y flwyddyn nesaf etto, dan amgylchiadau mwy ffafriol gobeithiwn. Nid o'u bodd y llaesir gafaelion yr Eglwys a'r Bendefigaeth. Mae y cweryl Americanaidd a'i effeithiau ar fasnach y wlad a chyflwr y llaw-weithfeydd cottwn yn enwedig, wedi bod yn rhwystr ar ffordd pob mudiad rhyddfrydol. Dygwyd y matter gofidus hwn o flaen Tŷ y Cyffredin ar y 18fed o Orphenaf gan Mr. Lindsay, mewn gynnygiad i'r perwyl "fod taleithiau'r Dê wedi dangos eu penderfyniad a'u gallu i gynnal eu hannibyniaeth, ac ei fod yn briodol i'r deyrnas hon bellach gynnyg cyfryngu rhwng y pleidiau, gyda yr amcan o ddwyn y galanastra presenol i derfyniad." Dadleuwyd dros ac yn erbyn y cynnygiad, ar un llaw trwy ddwyn ymlaen y rhesymau a ddefnyddir gan ein newyddiaduron poblogaidd y rhai ydynt o'r dechreu yn anffafriol i achos yr Undebwyr; ac o'r tu arall trwy nodi fod 18 miliwn yn erbyn 5 miliwn o wrthryfelwyr, yn benderfynol hyd yr eithaf i adferyd unbenaeth ac awdurdod cyssefin llywodraeth yr Unol Daleithiau; ac mai drwg o'r mwyaf fyddai i ni beryglu rhyfel ag America trwy ymyraeth â'r cweryl annedwydd. Pan gynnygiwyd fod y ddadl i gael ei gohirio cododd Arg. Palmerston i wrthwynebu hyny, gan ddywedyd fod yn ddrwg iawn ganddo fod y pwnge wedi ei ddwyn o gwbl o flaen y Tŷ, ac y barnai ef mai y peth goreu i'r Senedd oedd gadael breichiau y Weinyddiaeth yn hollol ryddion i ymddwyn yn y matter yn hollol fel y byddent hwy yn gweled yn oreu. Ac yna tynodd Mr. Lindsay ei gynnygiad yn ol.

Y Cyfyngder yn Sir Lancaster.—Mae y cyfyngder sydd yn ffynu yn y taleithiau llaw-weithiol wedi cynnyddu i raddau galarus iawn. Dywedir fod yn Manchester yn unig agos i ddwy fil o wŷr, wragedd, a phlant, heb ddim i'w wneud—heb ennill un ddimeu o gyflog, ac wedi parhau i fyw yn dawel a heddychol er's llawer o fisoedd, ar y ceiniogau a gynnilasant, ar help perthynasau sydd ganddynt yn gweithio, ac ar elusen y cyhoedd; a'r un modd yn y gweithfeydd cotwm yn gyffredinol, ac y mae lle i gredu nad yw'r gwaethaf wedi dyfod etto. Da genym weled fod tanysgrifiadau a chasgliadau yn cael eu gwneud gyda phob gradd trwy wahanol ranau o'r deyrnas, gyda golwg i liniaru'r newyn sy'n rhythu fel angheu yn ngwyneb miloedd o ddynion.

Y Cyfandir.—Yn y parthau dwyreiniol mae'r Tyrciaid a'r Montenegrins yn methu byw heb ryfela â'u gilydd; yn y rhanau eraill o'r Cyfandir y mae tawelwch yn ffynu; ac nid dibwys gyda golwg ar barhâd yr heddwch ydyw'r ffaith fod Rwssia a Phrwssia wedi cydnabod Teyrnas Italy yn ol y ffurf arferol. Ond y mae Garibaldi, mae'n debyg, wedi blino ar fywyd llonydd, ac wedi rhoddi ei fryd ar gychwyn rhyw symudiad. Mae cryn ymryson wedi bod rhyngddo â phrif weinidog Italy, o achos yr "araeth fawr" a wnaeth yn Palermo, yn yr hon y condemniai yr Ymerawdwr Napoleon fel gorthrymwr a gelyn i undeb Italy; tra mae Ratazzi yn canmol Napoleon III fel cyfaill i'r undeb, ac un sydd yn teilyngu diolchgarwch yr Italiaid. Yn Sicily cynnyrchodd areithiau Garibaldi y fath frwdfrydedd yn meddyliau y bobl fel y maent yn gwaeddi yn gyhoeddus yn heolydd y trefydd a'r dinasoedd, "I Rufain gyda Garibaldi." Mae maer Palermo wedi cael ei ddiswyddo am dystio ei gymeradwyaeth o un o areithiau mwyaf tanbaid Garibaldi. O'r tu arall mae'r prif weinidog wedi hyspysu fod y llywodraeth yn benderfynol i amddiffyn awdurdod y Senedd yn erbyn *unrhyw berson* (h. y. Garibaldi), ac yr attelid pob anturiaeth o duedd i beryglu diogelwch yr Undeb Italaidd a'r llywodraeth.

America.—Mae yr Americaniaid, gwŷr y gogledd yn enwedig, wedi cael y gair o fod yn bur chwannog i ymffrost, ac fel y mae'n arfer gyda'r cyfryw, yn rhy ddiofal am y gwir. A rhaid dywedyd

bod amryw o'r hyspysiadau parth helynt y rhyfel, ag a drosglwyddwyd trwy y *telegraph* a thrwy y *post*, wedi troi i maes yn unochrog neu yn anwireddus. Ac nis gellir rhyddhau swyddogion y llywodraeth o fod yn gyfranogion o'r twyll, gan fod y *telegraph* a'r *post* yn gwbl dan eu llywyddiad. O'r tu arall ymddengys fod rhai hyspysiadau ag oeddynt yn anffafriol i'r gogledd wedi troi i fod yn ddisail. A'r canlyniad yw fod cryn ansicrwydd yn bodoli ynghylch gweithrediadau'r rhyfelwyr a gwir sefyllfa pethau yn y wlad annedwydd Modd bynag ymddengys fod McClellan wedi gorfod encilio o'i safle o flaen Richmond; ond, wedi ymladd amryw frwydrau gwaedlyd, ac er ei golled, wedi llwyddo i gael safle mwy diogel ar yr Afon James, dan amddiffyniad ei wnfadau. Disgwylir bob dydd am ryw hyspysiad penderfynol ynghylch helynt y rhyfel a sefyllfa bresennol y pleidiau yno. Mae'n edrych yn dywyll ddigon ar hyn o bryd. Os gellir ymddibynu ar yr hanesion diweddaf, mae byddin M'Clellan, yn ei chyflwr presennol, yn gwbl analluog i gymmeryd Richmond a gorchfygu y gwrthwynebwyr, os yn wir y gallant sefyll eu tir. Ac ymddengys hefyd nad oes fawr golwg am gael cyfnerthiant prydlawn a digonol, er dwyn oddiamgylch amcanion a phroffesiadau yr Undebwyr.

India.—Mae y newyddion diweddar o'r India wedi creu pryder nid bychan yn y wlad hon. Rhoddir ar ddeall fod anfoddogrwydd mawr yn mhlith y brodorion yn y gogledd orllewinol, a bod arwyddion eglur i'w canfod eu bod wedi rhoddi eu bryd ar ymgodi mewn gwrthryfel; ond bod eu gweithrediadau yn cael eu dwyn ymlaen yn ddirgelaidd, fel cyn toriad allan y gwrthryfel mawr diweddaf. Oddiwrth amgylchiadau sydd wedi digwydd dyfod i'r goleu, cesglir fod gan y Mahometaniaid law yn y gwaith.

China.—Y mae genym ni ryfel mae'n debyg yn China etto, nyni a'r Ffrangcod; ond *yn awr* nid yn erbyn llywodraeth Pekin, eithr o'i phlaid ac yn erbyn y Taepings, y rhai ydynt wedi bod yn cynnal gwrthryfel am flynyddau bellach, a'r rhai ydynt yn awr yn bygwth ein sefydliadau masnachol ar lan y mor.

Bu Farw.

Mehefin 17eg, yn Llech-cynon, Cellan, ger Llanbedr, Ceredigion, Mr David Griffiths, gynt o Bittygate, wedi byr gystudd, yn 92 mlwydd oed. J. G. T.

Mehefin 21, yn 11 mlwydd oed, wedi byr ond trwm gystudd, John, mab William a Mary Phillip o Drefnewydd y Notais, ac ŵyr i'r Parch. Titus Lloyd. Yr oedd yr ymadawedig yn fachgenyn gobeithiol iawn, ac wedi tynu sylw a serch ei berthynasau a'i gydn bod i raddau mwy na chyffredin, trwy ei addfwynder a'i brydferthwch, ac yn neillduol mewn cyssylltiad â'r canu cynnulleidfaol yn eglwys y Notais, lle y clywid ei lais peraidd gyda'r uchaf yn y côr. Bu farw yn bur annisgwyliadwy drwy effeithiau twymyn ag oedd ar y pryd yn pwyso yn drwm ar amryw deuluoedd yn y gymmydogaeth. Teimlir hiraeth mawr ar ol y bachgen gan ei rieni a'i berthynasau hoff. Ond y mae yn dda genym feddwl nad ydynt yn "galaru fel rhai heb obaith," a bod eu hiraeth naturiol yn cael ei dymheru â ffydd ac ymostyngiad i drefn Duw. I.

Gorphenaf 21ain, yn 54 oed, Gwenllian, gwraig David Thomas o'r Notais. Bu yr ymadawedig yn aelod rheolaidd gyda'r Undodiaid yn y lle uchod, am y 21 mlynedd diweddaf o'i bywyd Ar ddydd ei hangladd ymgynullodd tyrfa luosog i'w hebrwng i "dŷ ei hir gartref," pan y pregethodd gweinidog y lle ar yr achlysur oddiar 2 Pedr iii. 11, 12. Teimlir hiraeth dwys a chollED mawr ar ei hol, yn y teulu ac yn yr eglwys.

T. Lloyd.

Barddoniaeth.

YN MLAEN MAE'R BYD YN MYNED.

(CYFEITHIAD.)

Yr oedd y titlau'r amser gynt,
Yn arwydd uchel ach;
A'r gwŷr a feddai'r urddol hynt
Yn Dduwiau pob dyn bach:
A thybient hwy mai cyfiawn hawl
Eu hurdd oedd llethu'r tlawd,
Ac i'r llafurwr ni cheid mawl
Ond gwaith, a churio 'i gnawd.

Ni welid llyfrau'r amser gynt
Yn nhŷ y gweithiwr gwael,
A braidd y tybiai bonedd gwlad
Fod llyfr yn werth ei gael;
Digonol fraint llafurwr prudd
Oedd goddef llawer loes,
Gan weithio'n ddiwyd nos a dydd
Trwy ystod fer ei ces.

Caid darllen a 'sgrifenu gynt
Yn bethau rhyfedd iawn,

A thybiai'r lliaws hyny'n wyrth,
A grym cythreulig ddawn ;
Yr anwybodus ddyn oedd gaeth,
A llwythog waith i'w ladd ;
Ail asyn llwyd tan lwon ffraeth
Boneddwr uchel radd.

Ond sylla draw ! lledaeniad gwawl
Sy'n gwasgar tros y tir,
Ieuengctyd glân, a'u llyfrau'n hawl,
Sy'n derbyn llesiant gwir ;
Uniondeb pur sy drech na'r cledd ;
Daw'r llidiog wŷr tan draed,
Nid IARLL, ond dyn a bia'r sedd,
A'r doeth yw'r gwr o waed.

Dirmygu'r uchel radd i'n mysg
Nid yw ymddygiad iawn,
Ond parcher dyn ac nid y wisg,
Nid golud ond y dawn ;
Er i'r tywysog aur yn nerth,
Uwchlaw'r llafurwr blin,
Tra eglur ffaith mai'r mwyaf gwerth
Yw synwyr, moes, a rhin.

Na chwyner am yr amser gynt,
Ymwawriodd dyddiau gwell,
Aeth beiau'n tadau gydâ'r gwynt
O'r tir yn eithaf pell ;
Gerbron ysgrif-bin dysg a'r wasg,
Cwymp gormes meddwl dall,
Gan wir lesoli'r byd trwy dasg,
Gwybodaeth dynion call.

Merthyr. PHILLIP HUGHES.

CAN NEWYDD I FFYNON FEDDYGINIAETHOL LLANHARAN.

Ar y dôn "*Bellisle March*"

Mae ffynon amlwg, ar fynydd Maelwg,
O fewn Morganwg wiw,
Yn llaw Rhagluniaeth, sy'n feddyginiaeth
I bawb o ddynolryw.
'Nol ei harchwaethu, mae'n llaesu'r loesni
'Nol bod yn poeni'n hir.
Mae'n gwella'r gwanwr, heb un physigwr ;
Yn rhad i bawb yn wir.
Mae'n llifo'n gyson crych,
I'r gwanaf fel y gwych :
Un 'ddyn afiach—hi 'gwell yn holl iach,
Er bod yn ddrwg ei ddrych.
O ! canwn iddi, gan uchel floeddi ;
Mae'n gweini i'r rhai gwan :
Mae yn effeithio—Duw'n ei bendithio—
Mor dirion er ein rhan.

Mae mor ddiderfyn, yn llifo'n llyfn
I'r werin nos a dydd.
Rhown glod i'r Rhoddwr, am roddi dwfr,
I dynu'r caeth yn rhydd.
Er 'dyw ond bychan, mae'n gwella'r grachan
Mor fuan a diffael,
Yn rhoddi iechyd i'r rhai cornwydlyd,
Mae'n hedd a gwledd i'r gwael.
Pan f'o meddygon gwlad
Yn methu rhoi gwellhad—
'Ond d'od yn union i lán y ffynon,
Cael nerth wrth ben fy nhra'd.
Mae'n gwella'r teimlad trwy'r cyfansoddiad,
Yn rhoddiad *Duw* ein *Iôr*,
Wedi ei bendithio mor helaeth ganthro,
A digon ynddi'n stôr.

Mae'n llawn rhinweddau i'r gwael gael gwella,—
Pob graddau sy'n ein gwlad :
Rhai sydd yn drachtio, maent yn adfywio
A neidio ar eu tra'd.
Glanhâ'r arenau, rhydd nerth i'r lwynau
Fu gynt mewn poenau'n bod.
'Rwy'n gorfoleddu a mawr dueddu
I ganu iddi glod.
Nis gallaf dewi sôn—
Mae'n gwella grân fy nghroen :
Er bod yn wan-wr, mi gefais gryfdwr—
'Pump synw'r sy'n ddiboen.
Mae'n deffro'r awen i blentyn anian
Mor fuan yn y fan :
'Rwy'n llawn llawenydd, am nerth ar gynnydd,
'Nol bod yn hir yn wan.

Mi gefais boenau ddeg o flynyddau ;
'Doedd im' orphwysdra'n bod :
Gwythenau'n tyfu ac yn trywanu
O'r coryn hyd fy nhro'd.
'Rwy'n adnewyddol—mae'n haeddu 'i chanmol—
—Rhagorol yn ei gwaith :
Rwy'n awr yn llamu ac ymlawenu
Wrth gerdded ar fy nhaith.
Rho'wn glod i'n *Crewr* mawr sy'n llywydd nef a llawr
Am hyn o'i gyfran yn mhlwyf Llanharan,
I'r truan yma'n awr.
Yr wyf eleni 'n rhoi ffarwel iddi,
Ac yn amlygu'r nod,
Trwy siroedd Cymru boed clod yn clymu
Am feddyg rhad sy'n bod.

MORGRUGYN, sef D. Jenkins.

Wig, Gorphenaf 12, 1862.

PENYBONT : ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.